

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

3/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

13/01/2021

Astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio penderfyniadau rhieni o ran gofal plant ac addysg gynnar

Astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau
rhieni o ran gofal plant ac addysg gynnar

Awduron:

Buddug Hughes a Kathryn Jones

IAITH: Y Ganolfan Cynllunio Iaith

Adroddiad Ymchwil Llawn Hughes, Buddug a Jones, Kathryn (2021). *Astudiaeth wedi'i seilio ar ymchwil ansoddol o gredoau ac ymddygiadau rhieni a gofalwyr ynghylch gofal plant ac addysg gynnar*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 3/2021

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/credoau-rhieni-eu-hymddygiadau-ar-rhwystau-y-maen-nhwn-eu-hwynebu-gofal-plant-ac-addysg-gynnar>

Barn yr ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Aimee Marks

Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: TalkChildcare@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

Geirfa.....	4
1. Cyflwyniad	6
2. Cefndir.....	8
3. Methodoleg	14
4. Canfyddiadau	280
5. Casgliadau	68
6. Argymhellion	74
Cyfeiriadau.....	77
Atodiad A: Rhybudd Preifatrwydd	80
Atodiad B: Offerynnau Casglu Data	84

Geirfa

Acronym / Gair allweddol	Diffiniad
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gan blant anghenion addysgol ychwanegol os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n galw am wneud darpariaeth addysgol ychwanegol ar eu cyfer.
Cynnig Gofal Plant (y Cynnig)	30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru - rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.
CWLWM	Gofal Plant Cymru yn Dysgu a Gweithio ar y Cyd - consortiwm o'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru. Sefydliadau Cwlwm yw Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol (NDNA Cymru) a PACEY Cymru.
Cylch Meithrin	Mae Cylch Meithrin yn gylch chwarae cyfrwng Cymraeg (lluosog: Cylchoedd Meithrin).
Dechrau'n Deg	Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n darparu cefnogaeth yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru i blant (0-3 oed) a'u teuluoedd. Mae elfen gofal plant Dechrau'n Deg yn berthnasol i blant dwy i dair oed.
GGD	Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd - y pwynt cyswllt ar gyfer rhoi cyngor a gwybodaeth am wasanaethau lleol i deuluoedd a gofalwyr, sy'n darparu gwybodaeth am ofal plant.

Cyfnod Sylfaen	Y cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn tair i saith oed yng Nghymru.
CSM	Cyfnod Sylfaen Meithrin - addysg ran-amser (o leiaf 10 awr yr wythnos) o addysg gynnar wedi'i hariannu ar gyfer plant tair a phedair oed yn ystod y tymor ysgol, o'r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn dair oed. Cyfeirir ato weithiau fel hawl i addysg gynnar ac addysg gynnar wedi'i hariannu.
CSM1	Cyfnod Sylfaen Meithrin 1 - y garfan cyn-meithrin o blant sy'n codi'n dair oed.
CSM2	Cyfnod Sylfaen Meithrin 2 - y garfan meithrin o blant sy'n codi'n bedair oed.
GDPR	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2018)
Darparwr a gynhelir	Meithrinfa a ariennir gan awdurdod lleol; gallant fod yn ysgolion meithrin sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain neu ynghlwm wrth ysgol gynradd neu ysgol fabanod.
Mentrau Iaith	Mae Mentrau Iaith yn sefydliadau cymunedol sy'n gweithio i godi proffil y Gymraeg mewn maes penodol ac yn gweithio gydag unigolion, sefydliadau a busnes lleol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hardal.
Darparwr heb ei gynnal	Lleoliad gofal plant a weithredir gan ddarparwr gofal plant preifat, gwirfoddol neu annibynnol.
PACEY	Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar
PaCE	Mae Rhieni, Gofal Plant ac Addysg (PaCE) yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth gofal plant i rieni wrth iddynt hyfforddi neu chwilio am waith
SALT	Therapi Lleferydd ac Iaith
SNAP	Mae SNAP Cymru yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rieni, plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau neu a allai fod â rhai.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru IAITH i gynnal ymchwil ansoddol i archwilio'r credoau, ymddygiadau a rhwystrau eraill sy'n effeithio ar benderfyniad rhieni i beidio â manteisio ar eu hawl i ofal plant ac addysg gynnar a ariennir. Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen ymchwil ehangach i lywio polisi gofal plant ar gyfer plant tair i bedair oed.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o gyfweliadau ansoddol, arsylwadau a chyfarfodydd cymdeithasol lled ethnograffig a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â rhieni o 53 teulu oedd â phlentyn tair neu bedair oed, ar draws naw ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Nodau ac amcanion yr ymchwil

- 1.3 Nod yr astudiaeth hon oedd darparu dealltwriaeth fanwl o pam mae rhai rhieni / gofalwyr cymwys yn dewis peidio â manteisio ar y Cynnig, neu elfennau o'r Cynnig.
- 1.4 Dyluniwyd yr ymchwil hwn i gyflwyno credoau ac ymddygiadau'r rhieni a'r gofalwyr hynny ynghylch gofal plant ac addysg gynnar a sut roedd y rhain yn effeithio ar y niferoedd nad oedd yn manteisio ar y ddarpariaeth. Ceisiodd yr astudiaeth hefyd gasglu tystiolaeth ynghylch rhwystrau canfyddedig eraill a brofwyd gan y rhieni a'r gofalwyr hynny a fyddai fel arall wedi bod eisiau manteisio ar y Cynnig.
- 1.5 O ystyried graddfa fechan yr astudiaeth hon, a'r amser cyfyngedig a dreuliwyd gyda theuluoedd, mae'r canfyddiadau'n rhoi cipolwg yn unig. Maent yn nodi meysydd i'w harchwilio ymhellach.

Strwythur yr Adroddiad

1.6 Mae strwythur yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- **Cefndir** - mae'r adran hon yn cyflwyno gwybodaeth gyd-destunol am y Cynnig a darparu addysg gynnar ledled Cymru.
- **Methodoleg** - mae'r adran hon yn nodi'r nodau a'r amcanion, ac yn amlinellu'r dull methodolegol a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae'n rhoi ystyriaeth i gyfyngiadau'r astudiaeth, yr heriau a'r addasiadau a wnaed i'r dull ymchwil.
- **Canfyddiadau** - mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r data ansoddol a gasglwyd mewn cydweithrediad â 53 o deuluoedd ac un Swyddog Cymorth Cymunedol Sipsiwn a Theithwyr (G&TCSO).
- **Casgliadau** - mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o brif ganfyddiadau a chasgliadau'r astudiaeth.
- **Argymhellion** - mae'r adran hon yn cyflwyno'r argymhellion ar gyfer polisi yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil.

2. Cefndir

- 2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r cefndir cyd-destunol ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae'n rhoi gwybodaeth fanwl am ofal plant ac addysg gynnar a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer plant tair a phedair oed yng Nghymru.

Cynnig Gofal Plant Cymru

- 2.2 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu 30 awr o **addysg gynnar a gofal plant** a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer plant tair a phedair oed rhieni cymwys sy'n gweithio am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Prif nodau polisi'r Cynnig yw:
- galluogi mwy o rieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith
 - cynyddu incwm gwario'r rhai sydd mewn gwaith a helpu i wrthweithio tlodi i'r rheini sydd mewn swyddi â chyflog isel
 - annog datblygiad plant a'u parodrwydd ar gyfer yr ysgol. (Llywodraeth Cymru, 2018a: 7).
- 2.3 Mae'r Cynnig hefyd yn ymdrin ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i 'ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru, 2017a: 36).
- 2.4 Yn ystod tymor yr ysgol, mae'r Cynnig yn cyfuno'r cynnig addysg cyffredinol sydd yn o leiaf 10 awr o'r Cyfnod Sylfaen Meithrin (CSM) yr wythnos y mae gan bob plentyn tair a phedair oed hawl iddo gyda hyd at 20 awr o ofal plant ychwanegol ar gyfer teuluoedd cymwys. Yn ystod naw wythnos gwyliau ysgol, gall plant cymwys tair a phedair oed dderbyn hyd at 30 awr o ofal plant a ariennir gan y llywodraeth.
- 2.5 I fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig, mae angen i'r ddau riant (neu'r rhiant sengl mewn teulu un rhiant) allu darparu tystiolaeth trwy eu henillion eu bod yn gweithio isafswm wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr ar

yr isafswm cyflog cenedlaethol (NMW), y cyflog byw cenedlaethol (NLW) neu isafswm cyflog prentisiaeth (AMW) ac yn ennill llai na £100,000 y flwyddyn. Mae rhai eithriadau i gymhwysedd. Mae'r rhain yn cynnwys pan fo rhiant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb salwch statudol, absenoldeb rhiant, mamolaeth, tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu neu lle mae un rhiant mewn teulu dau riant yn derbyn budd-daliadau penodol sy'n ymwneud ag anabledd neu gyfrifoldebau gofalu.

Sut mae'r Cynnig yn amrywio ar draws Cymru?

- 2.6 Mae'r oriau o ddarpariaeth y CSM wedi'i hariannu sydd ar gael i blant tair a phedair oed ym mhob awdurdod lleol yn amrywio. Mewn rhai achosion, mae darpariaeth y CSM hefyd yn amrywio rhwng darparwyr y CSM o fewn yr un awdurdod lleol (Glyn et al., 2019). O ganlyniad, mae nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i gyfrif tuag at 30 awr y Cynnig yn ystod y tymor hefyd yn amrywio ar draws ac o fewn awdurdodau lleol (Ibid.). Mae amrywiad hefyd yn y math o ddarpariaeth sydd ar gael. Yn Abertawe, er enghraifft, dim ond trwy leoliadau a gynhelir y cynigir darpariaeth y CSM, ac mewn ardaloedd eraill, darperir y CSM mewn cymysgedd o leoliadau a gynhelir a rhai nad ydynt yn cael eu cynnal. Mae Tabl 1 yn cyflwyno trosolwg o'r Cynnig Gofal Plant a gynigir yn yr awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon.

Tabl 1: Trosolwg o ddarpariaeth y Cynnig Gofal Plant sydd ar gael yn ardaloedd yr awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon¹

Blaenau Gwent	Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn darparu 12.5 awr o ddarpariaeth addysg y CSM ar gyfer plant tair a phedair oed a 12.5 awr o ddarpariaeth ar gyfer addysg, sy'n golygu y gall rhieni cymwys, yn ystod y tymor, fanteisio ar 17.5 neu 20 awr ychwanegol o ofal plant. Mae'r model cyflenwi yn ffafrio ysgolion. Mae dau leoliad nas cynhelir yn cyflenwi Cyfnod Sylfaen 1 (CS1) ac mae dau leoliad heb eu cynnal yn cyflwyno Cyfnod Sylfaen 2 (CS2).
Caerdydd	Mae ysgolion Cyngor Caerdydd yn darparu 12.5 awr o addysg y CSM i bob plentyn tair a phedair oed, sy'n golygu y gall rhieni cymwys, yn ystod y tymor, fanteisio ar 17.5 awr ychwanegol o ofal plant. Mae'r model cyflenwi yn ffafrio ysgolion. Mae 21 o leoliadau heb eu cynnal yn darparu CSM1 a 21 o leoliadau yn darparu CSM2.
Ceredigion	Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu 10 awr o CSM1 i blant tair a phedair oed mewn ysgolion a lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal. Felly yn ystod y tymor, nifer yr oriau gofal plant yw 20 awr ar gyfer plant tair a phedair oed. Mae 21 o leoliadau heb eu cynnal yn darparu CSM1 a 21 o leoliadau yn darparu CSM2.
Conwy	Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu 10 awr o'r CSM i bob plentyn tair a phedair oed a hyd at 20 awr ychwanegol o ofal plant i bob plentyn yn ystod y tymor. Darperir bron yr holl CSM1 yn 46 lleoliad yr awdurdod nad ydynt yn cael eu cynnal. Cyflwynir yr holl CSM2 mewn ysgolion.
Sir Gaerfyrddin	Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn darparu 10 awr o CSM1 i blant tair oed mewn cymysgedd o ysgolion a lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal ac yn darparu 10 awr o CSM2 ar gyfer plant pedair oed, mewn ysgolion, sy'n golygu y gall rhieni cymwys gael mynediad at 20 awr o ofal plant ychwanegol yn ystod y tymor. Mae yna 31 o leoliadau heb eu cynnal yn darparu CSM1.
Sir Ddinbych	Mae Cyngor Sir Dinbych yn darparu 10 awr o CSM1 i blant tair oed mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal yn bennaf. Roedd 39 o leoliadau heb eu cynnal yn 2020. Mae pob plentyn pedair oed yn gymwys i gael darpariaeth CSM2 12.5 awr. Cyflwynir y CSM2 i gyd mewn ysgolion.
Castell-nedd Port Talbot	Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn darparu 12.5 awr o addysg CSM i blant tair a phedair oed, sy'n golygu y gall rhieni cymwys, yn ystod y tymor, fanteisio ar 17.5 awr ychwanegol o ofal plant.

¹Mae'r data yn Nhabl 1 yn cyflwyno'r ffigurau ar gyfer Gorffennaf 2020, ac fe'u darparwyd gan awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru.

	Darperir yr holl ddarpariaeth CSM1 a CSM2 mewn ysgolion. Ni ddarperir unrhyw ddarpariaeth CSM mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal.
Casnewydd	Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn darparu 12.5 awr o addysg CSM i blant tair a phedair oed, sy'n golygu y gall rhieni cymwys, yn ystod y tymor, fanteisio ar 17.5 awr ychwanegol o ofal plant. Cynigir darpariaeth CSM1 a CSM2 mewn cymysgedd o ysgolion a lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal. Roedd 20 o leoliadau heb eu cynnal yn darparu CSM1 a 25 o leoliadau yn darparu CSM2 yn 2020.
Abertawe	Mae Cyngor Abertawe yn ariannu ysgolion i ddarparu 10 awr yr wythnos o CSM i blant tair a phedair oed. Cyflwynir yr holl ddarpariaeth CSM1 a CSM2 mewn ysgolion yn 2020. Bydd plentyn sy'n derbyn 10 awr o addysg feithrin ran-amser mewn ysgol yn derbyn 20 awr o ofal plant wedi'i ariannu.

Deall y niferoedd sy'n manteisio ar y Cynnig

- 2.7 Mae rhai rhieni yng Nghymru yn dewis peidio â manteisio ar y CSM cyffredinol na'r elfen gofal plant a ariennir y Cynnig, er eu bod yn gymwys. Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y CSM a adroddwyd yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn uchel (89% a 98% o blant tair a phedair oed yn y drefn honno)². Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae o leiaf rhywfaint o'r ddarpariaeth CSM ar gael mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal (meithrinfeydd preifat, cylchoedd chwarae ac ati) lle sonnir, yn anecdotaidd, bod y niferoedd sy'n manteisio arno yn is o gymharu â ffigurau sy'n manteisio ar y ddarpariaeth mewn ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2018b: 3). Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae tystiolaeth anecdotaidd gan awdurdodau lleol yn awgrymu y gallai peidio â manteisio ar y CSM fod yn gysylltiedig â'r model cyflenwi ac, o bosibl, rhesymau eraill gan gynnwys diffyg ymwybyddiaeth o fuddion addysg gynnar (Ibid., 2018b: 3).

² [StatsWales: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion.](#)

- 2.8 Roedd y niferoedd a fanteisiodd ar y Cynnig ar y dechrau, pan oedd y Cynnig ar gael mewn rhai ardaloedd o Gymru yn unig, yn is na'r disgwyl. Nododd Gwybodaeth Rheoli Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru mai dim ond rhyw hanner y rhieni cymwys a amcangyfrifwyd oedd yn manteisio ar y Cynnig. Cymharol ychydig o ymchwil a fu'n ddiweddar i'r ffactorau sy'n dylanwadu ar pam nad yw rhai rhieni'n manteisio ar y ddarpariaeth gofal plant ffurfiol. Un enghraifft ddiweddar oedd adolygiad o'r sector gofal plant yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019)³ sy'n cyfeirio at astudiaeth gan (Paull a Xu, 2015). Canfu'r astudiaeth y disgwylid i'r effaith gyffredinol ar leihau tlodi a chyfranogiad mamau yn y gweithlu fod yn fach iawn. Awgrymwyd hefyd bod angen newid mwy sylweddol yn yr incwm i'w gwneud yn werth chweil i famau weithio gan fod ffactorau eraill yn cael mwy o effaith (e.e. y gwerth a roddir ar ofalu am blant yn uniongyrchol, plant eraill sy'n dal i fod angen gofal). Mae tystiolaeth o rai astudiaethau llai diweddar, er enghraifft, astudiaeth o rieni sy'n gweithio sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn y DU, wedi dangos y gallai trefniadau gofal plant anffurfiol gydag aelodau eraill y teulu gael eu ffafrio am resymau yn ymwneud ag ymddiriedaeth, eu bod yn cytuno am sut y dylid magu plant, ac awydd i greu rhwymau teuluol cryfach o ganlyniad i'r ffaith fod neiniau a theidiau yn cymryd rhan yn y gwaith o fagu plant (Wheelock a Jones, 2002). Dangosodd ymchwil flaenorol yn Awstralia y gallai rhai rhieni fod yn amharod i fanteisio ar ofal plant ac addysg gynnar oherwydd bod ganddynt bryderon ynghylch faint o gysylltiad a chefnogaeth un i un y mae eu plant yn ei gael mewn lleoliad gofal plant neu addysg ffurfiol (Evans a Kelly, 2002).
- 2.9 Dangosodd astudiaeth gymharol ar draws sawl gwlad yn yr Undeb Ewropeaidd sut mae'r heriau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i ffyrdd i drin gofal plant a'r farchnad lafur yr un pryd yn effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau gan rieni (McLean et al., 2017). Canfu ymchwil a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau fod profiadau rhieni eu hunain o

³[Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru](#)

addysg gynnar a normau diwylliannol yn llywio eu credoau ynghylch pryd mae plant yn barod i ddechrau cael addysg ac y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau rhieni ynghylch eu plant eu hunain (Taylor et al., 2004). Dangosodd ymchwil arall yn y DU hefyd fod costau uchel gofal plant yn rhwystro i rai teuluoedd (Sefydliad Joseph Rowntree, 2016). Ymhellach, gallai teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig fod dan anfantais hefyd oherwydd diffyg trafnidiaeth, pellter a bod â llai o fynediad at wasanaethau gofal plant (De Marco, 2008).

- 2.10 Mae cipolwg ar benderfyniadau rhieni ynghylch gofal plant ac addysg y CSM o ymchwil flaenorol ar gymdeithasoli iaith yn gynnar yng Nghymru wedi dangos y gall iaith ddylanwadu ar benderfyniadau rhieni a gofalwyr ynghylch addysg gynnar a gofal plant ac y gall manteisio ar y rhain trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn bwysig (Llywodraeth Cymru, 2019; Morris a Jones, 2008).

3. Methodoleg

- 3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r cwestiynau ymchwil a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y fanyleb ar gyfer yr ymchwil, ac yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Arweiniodd nifer o heriau at addasiadau i'n dull gweithredu, a eglurir isod.

Cwestiynau ymchwil

- 3.2 Y cwestiynau ymchwil yr oedd yr astudiaeth hon yn ceisio'u harchwilio'n fanwl oedd:
- Beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu wrth benderfynu pam mae rhai rhieni / gofalwyr sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant⁴ yn dewis peidio â manteisio arno?
 - Beth yw'r ffactorau dylanwadol wrth benderfynu pam mae rhai rhieni / gofalwyr yn dewis peidio â mynd â'u plentyn i'r CSM?
 - Ydy rhieni / gofalwyr yn gwybod sut i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant⁵?
 - Ydy rhieni / gofalwyr yn deall sut i wneud cais am y CSM?
 - Sut mae rhieni / gofalwyr yn penderfynu pa wasanaethau a /neu hawl(iau) y maen nhw'n ymgysylltu â nhw? Sut wnaethon nhw ddod i wybod am y gwasanaethau hyn? A beth sy'n dylanwadu ar y penderfyniadau hyn?
 - Pa ddylanwadau cymdeithasol-ddemograffig a diwylliannol sy'n cael dylanwad ar rieni / gofalwyr sy'n dewis peidio â manteisio ar addysg gynnar a gofal plant?
 - Ar wahân i oblygiadau ymarferol, pa ganfyddiadau / syniadau y maen nhw'n eu ffurfio ymlaen llaw sydd gan rieni / gofalwyr am addysg a gofal cynnar, ac a yw'r disgwyliadau hyn yn creu

⁴Mae'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at y Cynnig yn ogystal ag at elfen gofal plant y Cynnig.

⁵Mae'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at y Cynnig yn ogystal ag at elfen gofal plant y Cynnig.

amharoddrwydd a /neu rwystrau i ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn?

- Beth sy'n rhwystro (ac yn helpu, neu a allai helpu) rhieni / gofalwyr i ymgysylltu â gwasanaethau addysg gynnar a gofal?
- A yw rhai materion yn ymwneud ag addysg gynnar a gofal plant yn fwy amlwg i rai grwpiau? (e.e. statws economaidd-gymdeithasol / ethnigrwydd / credoau crefyddol)
- Beth, os unrhyw beth, fyddai'n gwneud i rieni /gofalwyr ailystyried mynd â'u plentyn i leoliad addysg gynnar neu ofal? A beth fyddai'n eu darbwyllo i barhau i wneud hynny'n rheolaidd?
- Os yw rhieni wedi defnyddio addysg gynnar neu ofal plant, i ba raddau y mae wedi cyflawni yn erbyn unrhyw ddisgwyliadau?
- I ba raddau y mae ffactorau sy'n gysylltiedig ag iaith yn dylanwadu ar ddewisiadau rhieni / gofalwyr ynghylch addysg a gofal cynnar?
- Pa ffactorau sy'n effeithio ar ddymuniadau rhieni / gofalwyr i gael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog? Ac i ba raddau mae'r rhain yn dylanwadu ar benderfyniadau?
- Beth yw'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn hwyluso mynediad at ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, ac i ba raddau y mae'r rhain yn dylanwadu ar benderfyniadau?
- Pa ganfyddiadau sydd gan rieni / gofalwyr am addysg a gofal cynnar Cymraeg a dwyieithog?
- Wrth wneud penderfyniadau am addysg a gofal cynnar, i ba raddau y mae rhieni yn cael eu harwain gan ddyhead tymor hir o ran galluedd eu plentyn i siarad Cymraeg?
- Beth, os o gwbl, y mae rhieni yn ei ystyried yn effeithiau tymor canolig i dymor hir gofal plant ac addysg gynnar ar eu plentyn, a'u teulu yn ehangach?

Ymagwedd

- 3.3 Mabwysiadwyd dull ansoddol er mwyn i'r astudiaeth hon, 'fynd y tu hwnt i'r llenyddiaeth sy'n adrodd yr hyn y mae rhieni'n dweud y byddant yn credu y byddant yn ei wneud o arolygon a chyfweliadau ar un adeg benodol, ac yn ymchwilio yn ddyfnach i ddeall eu hagweddau a'u hymddygiadau go iawn' Llywodraeth Cymru (2018:5). Bwriad yr ymchwil hwn oedd mynd y tu hwnt i'r llenyddiaeth ac ymchwilio yn ddyfnach i ddeall gwir gredoau ac ymddygiadau rhieni a gofalwyr tuag at addysg gynnar a gofal plant.
- 3.4 Ceisiodd yr astudiaeth fabwysiadu egwyddorion ethnograffig lle roedd hynny'n bosibl; llunio disgrifiadau manwl o sut mae pobl yn byw eu bywydau ac yn gwneud dewisiadau, yn seiliedig ar arsylwi a thrafod. Y bwriad oedd i'r ymchwilwyr ddefnyddio eu cysylltiadau a'u perthnasoedd â'r cyfranogwyr y buont yn siarad â nhw er mwyn cael darlun tryloyw o'u credoau dilys tuag at addysg gynnar a gofal plant. Ceisiodd ymchwilwyr medrus ymgysylltu â chyfranogwyr i'r ymchwil a'u hannog i rannu eu safbwyntiau trwy sgwrsio mewn lleoliadau naturiol. Mae hyn wedi caniatáu i ymchwilwyr arsylwi a thrafod ymddygiadau a chymhellion a chaniatáu gwell dealltwriaeth o pam mae pobl yn gwneud yr hyn maen nhw'n ei wneud. Nid oedd dull ethnograffig llawn yn bosibl o fewn yr amserlenni a'r adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer yr astudiaeth hon.
- 3.5 Gall safbwyntiau ynghylch arferion rianta fod yn fater emosiynol a chymhleth iawn. Mae hyn yn gwneud y tebygolrwydd o 'duedd dymunoldeb cymdeithasol'⁶ a'r bwlch rhwng y bwriad sy'n cael ei ddatgan gan rywun ac ymddygiad gwirioneddol yn fwy tebygol pan fydd rhieni a gofalwyr yn ymateb i arolygon neu gyfweliadau ffurfiol gydag ymchwilwyr anhysbys (Evans a Kelly, 2002). Gall cyfleoedd ymchwilydd

⁶Mae tuedd dymunoldeb cymdeithasol yn cyfeirio at duedd cyfranogwyr ymchwil i roi ymatebion cymdeithasol ddymunol yn lle dewis ymatebion sy'n adlewyrchu eu gwir deimladau (Grimm, 2010).

i adnabod ac arsylwi unigolyn yn ei gymuned leol o bosibl helpu lleihau'r risg o duedd dymunoldeb cymdeithasol (Given, 2008). Am y rheswm hwn yn yr astudiaeth hon, recriwtiwyd tîm o ymchwilwyr a oedd yn byw yn un o ardaloedd ymchwil y prosiect, yn adnabod yr ardal leol yn dda, yn gyfarwydd â darpariaeth y blynyddoedd cynnar, ac oedd â rhwydweithiau cymdeithasol personol a phroffesiynol sefydledig ymhlith rhieni gyda phlant ifanc yn yr ardal. Er bod rhai o'r ymchwilwyr yn adnabod rhai o'r cyfranogwyr yn yr ymchwil y tu hwnt i gwmpas gweithgareddau casglu data, nid oedd hyn yn wir yn y rhan fwyaf o achosion oherwydd yr angen i gynnwys ystod o wahanol rieni a gwarcheidwaid yn yr ymchwil. Roedd cyfarfod â rhieni mewn lleoliadau cymdeithasol ar ddau achlysur gwahanol neu fwy yn rhoi rhywfaint o gyfle i'r ymchwilwyr arsylwi rhai arferion rhianta a dod i adnabod cyfranogwyr yr ymchwil yn well na chynnal ymarferiad casglu data sylfaenol ar unrhyw un adeg (e.e. cyfweiliad, neu grŵp ffocws).

- 3.6 Mae manteision cydnabyddedig i ffurfio tîm ymchwil sy'n cyfuno safbwyntiau rhai 'o'r tu mewn' a rhai 'o'r tu allan' (Copland a Creese, 2015). Mae'r manteision hyn yn cynnwys tynnu ar 'ddealltwriaeth fanwl' rhywun o'r tu mewn i'r gymuned leol, bod yn rhywun yr ymddiriedir ynddo fel rhywun 'lleol' gyda gwybodaeth a chysylltiadau cymunedol a rennir a bod â chyd-ddealltwriaeth o brofiadau cyfranogwyr yr ymchwil. Gall cyfuno hyn â phersbectif yr unigolyn 'o'r tu allan' ddod â gwrthrychedd ychwanegol i'r astudiaeth ac mae'n galluogi'r tîm i gwestiynu rhagdybiaethau y gall pobl 'o'r tu mewn' eu cymryd fel ffeithiau. Roedd tîm ymchwil y prosiect hwn yn cynnwys saith ymchwilydd lleol, dau ymgynghorydd allanol - un o gefndir gofal plant proffesiynol ac un o gefndir academiaidd yn arbenigo mewn addysg a gofal plant a dau o ymchwilwyr swyddfa IAITH nad oeddent yn byw yn unrhyw un o'r wyth ardal ymchwil. Yn y tîm hwn, roedd yn bosibl cyfuno'r fantais bod ymchwilwyr lleol yn adnabod eu meysydd ymchwil yn dda, ac â mynediad 'mewnol' i rai rhwydweithiau cymdeithasol oedd yn cynnwys rhieni a gofalwyr â phlant ifanc gydag arbenigedd a

phrofiad staff ymchwil IAITH sy'n ymchwilwyr ansoddol profiadol ym maes addysg a gofal plentyndod cynnar.

- 3.7 Roedd gan yr holl ymchwilwyr rai profiadau oedd yn cael eu 'rhannu' gyda'r cyfranogwyr ymchwil targed trwy fod yn rhieni eu hunain. Roedd gan ddau o'r ymchwilwyr blant ifanc, o oed cyn-ysgol, ac roedd gan y lleill i gyd blant hŷn o wahanol oedrannau. Roedd gan yr ymchwilwyr i gyd hefyd brofiad cyfredol neu flaenorol o weithio ym maes gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.⁷ Gallai pob ymchwilydd siarad Cymraeg a Saesneg ac roeddent yn gallu siarad â rhieni yn Saesneg a / neu'r Gymraeg yn ôl dymuniad y rhieni.
- 3.8 Roedd y tîm ymchwil o safbwynt ethnigedd yn Wyn Cymreig neu yn Wyn Prydeinig ac yn fenywaidd. Nid oedd grŵp ymchwil unffurf ethnig o'r fath yn fwriadol ac, o bosibl, gallai fod wedi cyfyngu mynediad at broffil o gyfranogwyr ymchwil mwy amrywiol a mwy anodd ei gyrraedd nag a gyflawnwyd yn y sampl. (Trafodir y mater hwn ymhellach ym mhara. 3.17).

Recriwtio a hyfforddi ymchwilwyr lleol

- 3.9 Dosbarthwyd hysbysebion i recriwtio ymchwilwyr ar gyfer pob un o ardaloedd ymchwil y prosiect trwy e-bost i ddarparwyr yn y sectorau gofal plant ac addysg gynnar cyfrwng Cymraeg a Saesneg gan gynnwys ysgolion anghenion arbennig a cholegau addysg bellach. Yn ogystal, postwyd hysbysebion Cymraeg a Saesneg ar wefan IAITH a'u rhannu â Mudiad Meithrin i'w dosbarthu ymhlith gwefannau aelodau CWLWM a thudalennau Facebook, a Twitter.

⁷Roedd dau yn athrawon ysgol gynradd, un yn ddarlithydd addysg bellach, un yn fyfyrwr ymchwil ac roedd tri yn gweithio gyda Mudiad Meithrin. Sefydliad gwirfoddol yw Mudiad Meithrin sy'n arbenigo mewn darpariaeth blyneddod cynnar yn y Gymraeg. Cyflogir mwy na 200 o staff ledled Cymru, ac mae 1,500 o aelodau staff yn gweithio yn y cylchoedd meithrin ledled Cymru. Mae Swyddogion Datblygu yn gweithio ar lefel leol ym mhob sir gan gynnig arweiniad a chynghor ymarferol i staff, gwirfoddolwyr a rhieni.

Ymchwil desg

- 3.10 Seiliwyd yr astudiaeth ar adolygiad desg o lenyddiaeth ymchwil a dogfennau polisi i sicrhau bod y tîm ymchwil yn gyfarwydd â'r polisïau a'r ddogfennaeth allweddol sy'n berthnasol i'r astudiaeth.
- 3.11 Crëwyd Ffeiliau Ffeithiau Ardal ar gyfer pob ardal ymchwil i ychwanegu at wybodaeth leol yr ymchwilydd o'r ardal a darparu gwybodaeth gefndir a chyd-destunol i'r tîm ymchwil am y CSM a'r Cynnig ym mhob ardal, gwybodaeth am sut mae'r ddarpariaeth yn cael ei darparu, gan bwy a faint o rieni sy'n manteisio ar y ddarpariaeth honno. Roedd y ffeiliau ffeithiau hefyd yn darparu proffil economaidd-gymdeithasol byr, proffil iaith a phroffil ethnig ar gyfer pob ardal ynghyd â rhestr o awgrymiadau ar gyfer grwpiau, sefydliadau, lleoliadau, a gweithgareddau cymunedol a allai fod yn ddefnyddiol i'r ymchwilydd ar gyfer rhannu gwybodaeth am y prosiect a recriwtio teuluoedd ym mhob ardal.

Y sampl

- 3.12 Datblygwyd ffrâm samplu dangosol ar gyfer pob ardal ymchwil i geisio sicrhau ystod o nodweddion mewn teuluoedd oedd yn cymryd rhan o ran eu statws economaidd-gymdeithasol, nifer yr oedolion yn yr aelwyd, tarddiad ethnig y rhiant / rhieni, credoau crefyddol, cefndir iaith ac ieithoedd oedd yn cael eu siarad yn y cartref - nodweddion y rhagdybid a allai ddylanwadu ar y defnydd o ofal plant neu addysg ffurfiol. Ceisiodd y ffrâm samplu gwmpasu'r nodweddion canlynol:

- aelwyd un rhiant,
- aelwyd dau riant,
- rhiant / rhieni oedd yn siarad Cymraeg,
- rhiant / rhieni Saesneg eu hiaith nad oeddent yn siarad Cymraeg,
- rhiant / rhieni oedd yn siarad ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg,

- rhiant / rhieni ar incwm isel,⁸
- teuluoedd o gymunedau lleiafrifoedd ethnig,
- teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr,
- plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- plentyn gyda'r Gymraeg fel ei iaith gyntaf,
- plentyn â Saesneg fel ei iaith gyntaf,
- a phlentyn ag iaith gyntaf arall / ieithoedd cyntaf eraill.

3.13 Mae

⁸Nid oedd sgysiau gyda theuluoedd yn cynnwys cwestiwn uniongyrchol am incwm y rhieni ar y sail bod hyn yn debygol o fod yn ddi-fudd o ran meithrin perthynas a datblygu ymddiriedaeth i allu ymchwilio'n ddyfnach i'w gwir deimladau a'u credoau. Fel procsi, mae byw mewn Ardal Dechrau'n Deg wedi'i ddefnyddio fel dangosydd 'incwm isel'. Nododd sawl teulu nad oeddent yn byw mewn Ardaloedd Dechrau'n Deg eu bod ag 'incwm isel'. Lle soniwyd am hynny, nodwyd y wybodaeth hon wrth gwblhau proffil pob teulu.

3.14 Tabl **1** yn cyflwyno trosolwg o nodweddion allweddol y sampl terfynol o deuluoedd. Fel y dangosir, roedd gan fwyafrif y teuluoedd a oedd yn barod i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon blentyn tair neu bedair oed ac roeddent yn gymwys i hawlio'r CSM a chhydrannau gofal plant y Cynnig yn llawn, ond nid oeddent yn manteisio arnynt ar hyn o bryd. Oherwydd yr heriau a wynebwyd wrth recriwtio teuluoedd cymwys (gweler para. 3.16 am fanylion pellach), penderfynwyd, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, ehangu'r sampl i gynnwys mathau eraill o deuluoedd y mae eu profiadau yn dangos ystod eang amgylchiadau teuluoedd nad ydynt yn manteisio ar ofal plant ffurfiol na'r CSM ar hyn o bryd. O'r 16 teulu nad oeddent yn gymwys, roedd gan dri theulu un rhiant a oedd yn fyfyrwr a theulu arall lle'r oedd un rhiant yn aros am ganlyniad ei chais am fisa preswyl.

Tabl 1: Sampl o deuluoedd yn ôl nodweddion allweddol

Nodweddion allweddol y teuluoedd oedd yn cymryd rhan	Cyfanswm ym mhob ardal
Rhiant / rhieni cymwys nad oeddent yn manteisio ar y Cynnig yn llawn	37
Rhiant / rhieni nad oeddent yn gymwys nad oeddent yn manteisio ar y CSM neu Ofal Plant	16
Aelwyd dau riant	40
Aelwyd un rhiant	13
Rhiant / rhieni Cymraeg eu hiaith	17
Rhiant / rhieni di-Gymraeg – Saesneg	46
Rhiant / rhieni di-Gymraeg - iaith arall/ieithoedd eraill	7
Rhiant / rhieni incwm isel	20
Rhiant / rhieni o'r gymuned lleiafrifoedd ethnig	5
Plentyn ag ADY	6
Plentyn â'r Gymraeg yn iaith gyntaf	12
Plentyn â'r Saesneg yn iaith gyntaf	38
Plentyn ag iaith arall / ieithoedd eraill yn iaith gyntaf	3

Recriwtio rhieni a gofawyr

3.15 Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i recriwtio rhieni a gofawyr yn amrywiol ac yn cynnwys:

- anfon y llythyr a baratowyd ymlaen llaw yn egluro pwrpas y prosiect ac yn cyflwyno'r ymchwilydd lleol i amrywiol sefydliadau, grwpiau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni a theuluoedd ym mhob ardal (e.e. Blynyddoedd Cynnar Cymru, Canolfannau Teulu Dechrau'n Deg, Cymdeithas y Byddar, Meddygfeydd Meddygon Teulu, Clinigau Iechyd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant)
- cysylltu â swyddogion blynyddoedd cynnar a staff Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd o fewn awdurdodau lleol i gael cyngor a gwybodaeth am wasanaethau a digwyddiadau a ddarperir ar gyfer teuluoedd â phlant ifanc yn yr ardal leol.
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu taflen y prosiect a baratowyd ymlaen llaw a oedd yn disgrifio'r prosiect ac yn esbonio amcanion yr astudiaeth i ddarpar gyfranogwyr. Enghreifftiau o'r cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddid oedd tudalennau Facebook amryw Ganolfannau Teulu, grwpiau rhieni lleol (e.e. Picnic Tedi Bêr

a drefnwyd gan PACEY, Diwrnodau Hwyl i'r Teulu, grwpiau plant bach mewn llyfrgelloedd lleol) a Cymraeg i Blant⁹

- ymweld â gwahanol leoliadau (e.e. llyfrgelloedd lleol, ysgolion cynradd, caffis a siopau lleol, canolfannau chwaraeon a champfeydd, canolfannau chwarae i blant, cyflogwyr lleol, meddygfeydd, practisau milfeddygol, a meddygfeydd deintyddol) i ddosbarthu taflen y prosiect ac arddangos poster y prosiect.
- ymweld â lleoliadau eraill fel: Dechrau'n Deg, meithrinfeydd a chylchoedd chwarae cyfrwng Saesneg, Cylchoedd Meithrin Cymraeg, grwpiau Cymraeg i Blant a Chlwb Cwtsh¹⁰ er mwyn cynnwys teuluoedd a wnaeth ddefnydd rhannol o'r Cynnig yn unig ac i gael gwybod am unrhyw rieni eraill y gwyddys nad ydynt yn defnyddio'r Cynnig o gwbl
- dosbarthu taflenni prosiect ar y stryd mewn trefi gwledig ac yn ystod digwyddiadau cymunedol ar gyfer teuluoedd, ffeiriau lleol a marchnadoedd
- tynnu ar gysylltiadau'r ymchwilwyr yn eu rhwydweithiau cymdeithasol lleol eu hunain i rannu gwybodaeth am y prosiect
- ceisio cyrraedd rhieni oedd yn fwy anodd eu cyrraedd trwy amrywiol swyddogion cymorth, asiantaethau ac elusennau (e.e. Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Sipsiwn a Theithwyr, PaCE ac elusennau sy'n gweithio gyda grwpiau anabledd a chymunedau lleiafrifoedd ethnig).

3.16 Recriwtiwyd cyfanswm o 53 o deuluoedd gan ddefnyddio'r dulliau a restrir uchod. Cyflwynir y dadansoddiad ar gyfer pob ardal ymchwil yn Nhabl 3. O'r 53 teulu a gymerodd ran, roedd 47 yn cael eu cynrychioli gan famau, roedd tri yn cael eu cynrychioli gan dadau, ac mewn tri theulu arall, cymerodd y ddau riant ran yn yr ymchwil ar y cyd. O blith y

⁹Mae Cymraeg i Blant yn gynllun cenedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant trwy ddewis gofal plant ac addysg Gymraeg.

¹⁰Rhaglen blasu wyth wythnos ar gyfer rhieni a gofalwyr yw Clwb Cwtsh sy'n canolbwyntio ar siarad Cymraeg â phlant bach.

teuluoedd, roedd 40 yn deuluoedd dau riant ac 13 yn deuluoedd un riant. Ni ddaeth unrhyw ofalwyr ymlaen i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Yn ogystal â'r teuluoedd hyn, cyfwelwyd un Swyddog Cymorth Cymunedol Sipsiwn a Theithwyr a rhoddodd ychydig o wybodaeth am gredoau ac arferion teuluoedd o ran addysg gynnar a gofal plant nad oedd yr ymchwilwyr wedi llwyddo i'w cynnwys yn y prosiect.

Tabl 2: Nifer y teuluoedd a gymerodd ran yn ôl ardal

Ardal	Nifer y teuluoedd
Blaenau Gwent	2
Caerdydd	5
Ceredigion	7
Caerfyrddin	4
Arfordir Conwy	8
Arfordir Clwyd	6
Cas.Nedd Port Talbot	6
Casnewydd	5
Abertawe	10
Cyfanswm	53

Heriau wrth recriwtio cyfranogwyr ymchwil

- 3.17 Roedd recriwtio rhieni a gofalwyr a oedd yn gymwys ac yn barod i fod yn rhan o'r ymchwil yn her sylweddol. Roedd y mathau o anawsterau a gafwyd wrth gysylltu â rhieni yn y grwpiau targed a adroddwyd gan ymchwilwyr yn cynnwys diffyg ymateb i'r llythyr rhagarweiniol a thaflen y prosiect, er bod y rhain wedi eu dosbarthu'n eang gan yr ymchwilwyr eu hunain a chysylltiadau proffesiynol ac amhroffesiynol eraill sy'n gweithio gyda rhieni a gofalwyr ac sydd â chysylltiad â nhw.
- 3.18 Cafwyd anawsterau wrth gysylltu â grwpiau cymdeithasol penodol. Er y gwnaed ymdrechion niferus, roedd yn anodd, er enghraifft, cael mynediad uniongyrchol at deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn y sampl a'u cynnwys ynddi. Mae nodweddion yr ymchwilwyr hefyd yn debygol o fod wedi cyfyngu ar eu mynediad i rai grwpiau cymdeithasol. Roedd yr

ymchwilwyr i gyd yn wyn, yn fenywaidd gydag ethnigrwydd Cymreig / Prydeinig gyda mynediad cyfyngedig at rwydweithiau cymdeithasol mwy amrywiol o ran ethnigrwydd¹¹

- 3.19 Roedd llawer iawn o'r rhieni a'r gofalwyr y daeth yr ymchwilwyr ar eu traws naill ai eisoes yn manteisio ar y Cynnig neu'n anghymwys am amryw resymau. I rai rhieni, roedd gofynion y prosiect i dreulio tua dwy i dair awr yn cwrdd â'r ymchwilydd ar ddau neu dri achlysur gwahanol yn golygu cynnig mwy o amser nag yr oeddent yn barod i'w ymrwymo, neu'n gallu ei ymrwymo. Mynegodd rhai rhieni amharodrwydd i drafod eu hamgylchiadau personol. Mewn tua phymtheg achos, tynnodd rhieni a oedd wedi cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth yn ôl yn annisgwyl oherwydd amrywiol amgylchiadau teuluol ac ymrwymadau amser. Ar ddau achlysur, ni ddaeth rhiant i gyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw gydag ymchwilydd.
- 3.20 Derbyniodd pob teulu a gymerodd ran fag hesian plentyn wedi'i addurno â theigr, dau lyfr stori dwyieithog Cymraeg / Saesneg priodol i oedran y plant a bocs o siocledi. Defnyddiwyd hwn fel teclyn i ennyn diddordeb y rhai fyddai'n cymryd rhan yn yr ymchwil.

Casglu data

- 3.21 Yn nodweddiadol roedd tri cham i gasglu data gyda phob teulu. Yn gyntaf, casglodd yr ymchwilwyr rywfaint o wybodaeth 'sgrinio' gychwynnol gan aelod cyswllt y teulu, naill ai yn eu cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf yn y gymuned neu drwy e-bost neu ffôn os oedd y rhiant wedi cysylltu â'r tîm ymchwil dros y ffôn, e-bost neu Facebook yn gofyn am gael cymryd rhan yn yr astudiaeth. Defnyddiwyd y wybodaeth sgrinio hon i wirio bod y teulu yn cyd-fynd â meini prawf y sampl

¹¹Mae ymchwil wedi canfod y gallai cymunedau lleiafrifoedd ethnig fod yn llai tebygol o fanteisio ar addysg a gofal plentynod cynnar a ariennir gan y llywodraeth. Gweler er enghraifft, DfE (2018) [Take-up of free early education entitlements](#)

ymchwil ac i sicrhau bod amrywiaeth o fathau o deuluoedd yn dod yn rhan o'r prosiect i ffurfio'r sampl ar gyfer pob ardal ac ar gyfer y prosiect cyfan (gweler Atodiad B, adrannau templed 1 a 2). Roedd enwau a manylion cyswllt pob un oedd yn cyfrannu at yr ymchwil yn cael eu cadw gan yr ymchwilwyr lleol yn unig (ac ni chawsant eu rhannu ag unrhyw aelod arall o'r tîm ymchwil, gan gynnwys staff IAITH) at ddibenion trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac unrhyw ymholiadau dilynol dros y ffôn neu drwy e-bost i lenwi bylchau mewn data.

- 3.22 Yn ail, sefydlwyd cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf mewn lleoliad y cytunwyd arno yn y gymuned a ddewiswyd gan y teulu, ar adeg a oedd yn gyfleus iddyn nhw. Cynhaliwyd mwyafrif y cyfarfodydd wyneb yn wyneb mewn caffi. Cynhaliwyd rhai cyfarfodydd mewn man lle gallai'r plentyn neu'r plant chwarae e.e. yn yr awyr agored mewn parc neu y tu mewn mewn lleoliad 'chwarae meddal'. Gan amlaf, roedd y plentyn gyda'r rhiant / rhieni. Mewn ychydig o achosion, dewisodd rhiant beidio â chael eu plentyn yn bresennol, 'i ganolbwyntio ar y sgwrs heb ymyrraeth'. Mewn rhai achosion, byddai'r ymchwilydd yn cwrdd â'r ddau riant a byddai un o'r ddau riant yn difyrru'r plentyn / plant fel oedd yn gweddu i'r plentyn / plant tra byddai'r rhiant arall yn treulio mwy o amser yn siarad â'r ymchwilydd. Roedd un rhiant yn dymuno cymryd rhan yn yr astudiaeth ond nid oedd am gwrdd er mwyn gallu bod yn anhysbys. Gofynnodd chwe rhiant arall am gyfarfodydd dros y ffôn yn hytrach na chyfarfod wyneb yn wyneb, er hwylustod iddyn nhw. Oherwydd yr heriau a gafwyd wrth sicrhau bod rhieni yn cymryd rhan yn yr astudiaeth, caniatwyd y dewisiadau hyn.
- 3.23 Er gwaethaf ymdrechion i gynnal y dull sgwrsio anffurfiol, a ddefnyddid mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb, roedd y sgysiau ffôn yn debyg i gyfweliadau ffôn ansoddol, lled-strwythuredig, mwy traddodiadol. Ond penderfynwyd, trwy ganiatáu i rai teuluoedd gael eu cyfweld dros y ffôn, bod rhieni na allent gymryd rhan yn yr ymchwil fel arall yn gallu gwneud hynny ac mae eu data yn dangos mewnwelediadau na fyddent wedi'u cofnodi fel arall.

3.24 Yn ystod y cyfarfodydd wyneb yn wyneb â rhieni, nod y sgwrs rhwng yr ymchwilydd a chyfranogwyr yr ymchwil oedd bod mor anffurfiol â phosibl i wneud i'r cyfranogwyr deimlo'n gyffyrddus ac yn barod i rannu gwybodaeth am eu harferion magu plant, a'u credoau. Cynhaliwyd sgysiau yn y Gymraeg neu'r Saesneg neu mewn cymysgedd o'r ddwy iaith, yn ôl dymuniad y rhieni. Er mwyn cadw'r cyfarfyddiad yn anffurfiol, ni chyfeiriodd yr ymchwilydd at y Templed Casglu Data Teuluol (gweler Atodiad B) i ofyn cwestiynau ac ni wnaeth nodiadau ysgrifenedig na gwneud recordiad sain o'r sgwrs ym mhresenoldeb y rhieni. Yn lle hynny, gan ddilyn egwyddorion ethnograffig, ysgrifennodd yr ymchwilydd ei 'nodiadau maes' o'i sgwrs cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfod â'r teulu. Mae hon yn strategaeth ethnograffig nodweddiadol.¹² Yn eu nodiadau maes, nod yr ymchwilwyr oedd cofio cymaint o wybodaeth ag y gallent i gwblhau proffil y teulu ac adrannau gwerthoedd ac arferion y templed casglu data (adrannau 3 a 4 y templed - gweler Atodiad B). Roeddent hefyd yn anelu at gofnodi'r ffordd yr oedd rhieni wedi mynegi eu syniadau a'u credoau mor gywir â phosibl trwy gofio a nodi ymadroddion a geiriau allweddol yr oedd y chyfranogwyr wedi'u defnyddio. Roedd y gwaith gwneud nodiadau hwn yn tueddu digwydd yng nghar yr ymchwilydd yn syth ar ôl siarad â'r teulu. Mae'n anochel bod rhywfaint o wybodaeth wedi'i cholli a bylchau wedi deillio o'r dull hwn. Am y rheswm hwn gofynnwyd i'r chyfranogwyr gwrdd yr eildro er mwyn parhau â'r sgwrs. Anfonwyd drafft cyntaf o'r Templed Casglu Data Teuluol at staff IAITH i'w wirio, i nodi unrhyw fylchau gwybodaeth a chytuno ar yr agweddau ychwanegol ar wybodaeth i'w chasglu yn yr ail gyfarfod wyneb yn wyneb â phob teulu.

¹²Mae Emerson, Fretz a Shaw (2011:48) yn egluro pwysigrwydd amseriad ysgrifennu nodiadau maes: 'Over time, people forget and simplify experience; notes composed several days after observation tend to be summarized and stripped of rich, nuanced detail'. Mae ysgrifennu nodiadau maes yn syth ar ôl gadael y lleoliad yn cynhyrchu atgofion mwy ffres a manylach sy'n harneisio cysylltiad yr ymchwilydd â digwyddiadau'r dydd a'r cyffro yn eu cylch. Yn wir, mae ysgrifennu nodiadau ar unwaith wrth ymadael yn cynnig ffordd o ryddhau pwysau'r hyn y mae'r ymchwilydd newydd ei brofi. Mae'n haws canolbwyntio meddyliau ac egni rhywun ar y gwaith anodd o adolygu, cofio ac ysgrifennu.

- 3.25 Y trydydd cam yn y broses casglu data oedd yr ail gyfarfod a drefnwyd gyda'r teulu i barhau â'r sgwrs. Pwrpas yr ail gyfarfod oedd cael cyfle arall i ddod i adnabod y teulu ac i ymdrin ag unrhyw agweddau ar wybodaeth na chawsant eu casglu yn ystod y cyfarfod cyntaf. Roedd y sgysiau hyn hefyd yn anffurfiol gyda'r ymchwilydd yn cwblhau eu nodiadau maes ar ôl siarad â'r teulu. Mewn rhai achosion, cysylltodd ymchwilwyr â rhai rhieni trwy e-bost neu ffôn i lenwi unrhyw fylchau hanfodol oedd yn dal ar ôl yn y data.

Treialu'r gwaith o gasglu data

- 3.26 Treialwyd y broses casglu data gyda dau deulu. Cadarnhaodd y cam peilot addasrwydd yr offerynnau ymchwil a'r dull cyfweld sgysiol anffurfiol. Rhoddwyd enghreifftiau i bob ymchwilydd o Dtemplodi Casglu Data Teuluol wedi'u cwblhau a gynhyrchwyd gan aelodau eraill y tîm i'w hefelychu o ran arddull, y math o wybodaeth a lefel y manylder. Ar gyfer pob ymchwilydd, eu dau gyfweiliad cyntaf oedd eu cam treialu unigol, gyda chyfle i drafod y profiad cyfweld â dau reolwr ymchwil IAITH, cyn ac ar ôl pob cyfarfod â phob teulu. Rhoddwyd adborth ar ddrafft cyntaf ac ail ddrafft pob Templod Casglu Data Teuluol a gwnaed ceisiadau am unrhyw wybodaeth ychwanegol oedd yn ofynnol i lenwi unrhyw fylchau coll ac er mwyn gallu eu cymharu, cyn belled ag y bo modd, ar draws y data a gasglwyd ar gyfer pob teulu. Wrth i bob ymchwilydd ennill profiad o gyfweld â theuluoedd, canfu'r ymchwilwyr fod llai o fylchau data i'w llenwi yn yr ail gyfarfod â theuluoedd.

Ansawdd y Data

- 3.27 Oherwydd natur ansoddol yr astudiaeth hon, nid yw'r sampl yn honni ei bod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gyda phlant tair a phedair oed ym mhob ardal neu yng Nghymru gyfan. Dewiswyd y sampl olaf gan y rhieni eu hunain oherwydd i'r rhieni a gymerodd ran gysylltu â'r tîm ymchwil i ofyn am gael cymryd rhan ar ôl dysgu am y prosiect. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos y tri neu bedwar teulu cyntaf ym mhob

ardal. Ar ôl sicrhau'r tri neu bedwar teulu cyntaf, sgriniodd yr ymchwilydd y teuluoedd ychwanegol a oedd yn cynnig cymryd rhan er mwyn cael cymaint â phosibl o amrywiaeth o ran nodweddion yn eu sampl leol.

- 3.28 Defnyddiwyd y data nodiadau maes a gasglwyd o gyfweiliadau â rhieni, a oedd yn cynnwys dyfyniadau gan gyfranogwyr ac arsylwadau gan yr ymchwilydd, i boblogi'r Templed Casglu Data Teuluol (Atodiad B). Nid yw templedi yn tueddu i gael eu defnyddio mewn astudiaethau ethnograffig er mwyn rhoi rhyddid i ymchwilydd wneud nodiadau maes mwy eang. Ond yn yr astudiaeth hon, roedd y templed yn cyflawni pwrpas hwyluso'r angen i safoni casglu data teuluol ar draws tîm o saith ymchwilydd a chynnal dadansoddiad data dros gyfnod cyfyngedig.
- 3.29 Fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd data, gwiriwyd y data a gasglwyd yn erbyn y rhestr o gwestiynau ymchwil ac 'aide-memoire' yn Adran 5 y templed (gweler Atodiad B) er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod y data a gasglwyd yn ateb pob un o'r cwestiynau ymchwil. Cyflawnwyd safoni pellach ar nodiadau maes y tîm ymchwil trwy rannu cofnodion data dienw ymhlith aelodau'r tîm ymchwil a rhoi cyngor ac adborth gan ddau gyfarwyddwr ymchwil y prosiect. Adolygwyd y data a gasglwyd ar gyfer pob teulu gan ddau reolwr ymchwil prosiect IAITH yn ystod y cam drafft cyntaf, ail a therfynol er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod yna gysondeb o ran lefel y manylder a'r cynnwys ar draws y data. Yn ystod proses adolygu'r data a gasglwyd ar gyfer pob teulu, gwiriwyd y cofnodion am eglurder a manylder, bod y wybodaeth a roddwyd yn berthnasol ac yn darparu dealltwriaeth o gefndir, amgylchiadau, dewisiadau a chredoau pob teulu o ran gofal plant ac addysg gynnar.
- 3.30 Oherwydd y defnydd o ddulliau casglu data wyneb yn wyneb a thros y ffôn, roedd rhywfaint o amrywiad yn ansawdd y data. Cynhaliwyd gwaith casglu data trwy gyfarfodydd ac arsylwadau wyneb yn wyneb mewn lleoliadau a oedd yn gyfarwydd i'r cyfranogwyr ac mewn

amgylcheddau anfygythiol a allai annog cyfranogwyr i fod yn agored am eu hamgylchiadau a'u credoau. Mewn cyferbyniad, roedd y data a gasglwyd trwy saith cyfweiliad ffôn yn gyfyngedig gan nad oedd yn bosibl gwneud arsylwadau gweledol. Mae'n ymddangos hefyd fod rhai o'r rhieni a gafodd eu cyfweld dros y ffôn wedi bod yn llai parod i gydweithredu a bod ganddynt lai o ddiddordeb yn yr ymchwil, fel yr awgrymwyd gan eu hymatebion llai manwl ac oherwydd bod mwy o fylchau yn y wybodaeth a ddarparwyd ganddynt nag yn y cyfweiliadau wyneb yn wyneb.

Dadansoddiad o'r data

- 3.31 Cafodd y data ei ddidoli a'i godio yn unol â themâu a nodwyd o gwestiynau ymchwil y prosiect, llenyddiaeth ymchwil, tystiolaeth anecdotaidd a themâu ychwanegol a nodwyd yn y data. Tynnwyd y codau hyn at ei gilydd i ddarparu fframwaith dadansoddol ar gyfer yr ymchwil. Yna cafodd y data a gasglwyd ei ddidoli a'i grwpio o dan godau data cyfatebol o fewn y fframwaith, gan ganolbwyntio ar debygrwydd ac annhebygrwydd ac enghreifftiau esboniadol yn y data.

4. Canfyddiadau

4.1 Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno'r canfyddiadau yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r data a gasglwyd mewn cydweithrediad â 53 o deuluoedd ac un Swyddog Cymorth Cymunedol Sipsiwn a Theithwyr (G&TCSO). Cyflwynir y canfyddiadau hyn o dan y penawdau canlynol:

- Ymwybyddiaeth rhieni o hawl a dealltwriaeth o sut i wneud cais am y Cynnig (gofal plant wedi'i ariannu a'r CSM)
- Gwybod am asiantaethau a gwasanaethau cymorth i deuluoedd a'u defnyddio
- Rhwystrau ymarferol i fanteisio ar y Cynnig (gofal plant wedi'i ariannu a'r CSM)
- Rhwystrau gweinyddol i fanteisio ar y Cynnig (gofal plant wedi'i ariannu a'r CSM)
- Credoau ac ymddygiadau sy'n annog ymgysylltiad â gofal plant a ariennir a'r CSM
- Credoau ac ymddygiadau sy'n cyfyngu ar ymgysylltu â gofal plant a ariennir a'r CSM
- Materion iaith a'u heffaith ar ddewisiadau'r rhieni o ran gofal plant a'r CSM
- Materion yn ymwneud â manteisio ar ofal plant a ariennir a'r CSM ar gyfer grwpiau penodol

Ymwybyddiaeth rhieni o hawl a dealltwriaeth o sut i wneud cais am y Cynnig (gofal plant wedi'i ariannu a'r CSM)

4.2 Roedd mwyafrif y rhieni a gafodd eu cyfweld ym mhob un o'r ardaloedd ymchwil yn ymwybodol o'r Cynnig. Pedwar yn unig oedd ddim yn ymwybodol o'u hawl i 30 awr o'r CSM a gofal plant wedi'i ariannu. Dywedodd llawer a oedd yn gwybod am y Cynnig eu bod wedi derbyn gwybodaeth trwy ddarparwr fel meithrinfa gofal dydd, cylch chwarae, neu warchodwr plant. Soniodd rhieni eraill am gael gwybodaeth ar wefannau awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, gorsafoedd radio lleol ac mewn llyfrgelloedd lleol.

- 4.3 Dywedodd rhai rhieni, er eu bod yn ymwybodol o'r Cynnig, nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad iddo (Abertawe 3 a 4).¹³ Er enghraifft, dywedodd teulu cymwys, lle'r oedd y fam wedi clywed am y Cynnig trwy ei darparwr gofal plant, fod angen cymorth arnynt i gael y wybodaeth oedd yn ofynnol i gofrestru ar gyfer y Cynnig. Iddyn nhw, roedd y diffyg cymorth oedd ar gael i wneud cais am y Cynnig wedi bod yn rhwystyr wrth symud ymlaen â'u cais. O ganlyniad, roedd yn rhywbeth, 'nad oedden nhw wedi llwyddo i fynd ati i'w wneud.' O ganlyniad, roedd eu plentyn yn mynychu gofal plant mewn cylch chwarae, 'dim ond am un diwrnod yr wythnos, oherwydd dyna'r cyfan y gallwn ei fforddio' (Abertawe 3).
- 4.4 Mae'r CSM wedi'i seilio ar egwyddorion dysgu trwy chwarae¹⁴ a gellir ei gyflwyno mewn meithrinfa, cylch chwarae wedi'i ariannu neu gan warchodwr plant wedi'i gymeradwyo gan awdurdodau lleol neu ysgol. Roedd mwyafrif y rhieni a gyfwelwyd yn gwybod bod gan bob plentyn tair a phedair oed yng Nghymru hawl i nifer penodol o oriau addysg gynnar yn ystod y tymor ac yn gwybod am argaeledd darpariaeth y CSM yn eu hardal. Roedd llawer o'r rhieni, mewn gwirionedd, yn mynd â'u plant i ddarpariaeth y CSM megis dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd a chylchoedd chwarae, ond nid oeddent yn hawlio, neu doedden ddim yn gymwys i hawlio oriau gofal plant y Cynnig oedd yn cael eu hariannu ar gyfer eu plentyn. Dim ond ychydig o rieni a ddywedodd nad oeddent yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng addysg gynnar a gofal plant.
- 4.5 Roedd mwyafrif y rhieni'n gwybod sut i wneud cais am ddarpariaeth y CSM. Ymhlith yr enghreifftiau o sut y cafodd rhieni y wybodaeth hon roedd, 'gwybodaeth ar wefan y cyngor' (Blaenau Gwent 3) a 'gwybodaeth a roddwyd gan reolwr y feithrinfa' (CNPT3). Esboniodd un rhiant pa mor bwysig oedd darparwyr wrth rannu gwybodaeth, 'Rwy'n

¹³ Mae'r enw lle a'r rhif mewn cromfachau yn ddynodwyr ar gyfer y rhieni a gymerodd ran yn yr ymchwil.

¹⁴ [Cyfnod Sylfaen meithrin: canllaw ar gyfer rhieni a gofaluwr](#)

gwybod am y peth dim ond oherwydd bod y creche wedi tynnu fy sylw ato - fyddwn i ddim wedi gwybod fel arall' (CNPT4). Esboniodd rhiant arall ei bod yn ymwybodol o addysg gynnar mewn ysgolion a bod hyn yn cael ei ddarparu gan ysgolion yn Abertawe, nid gan leoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal (Abertawe 7). Dewisodd beidio â manteisio ar y CSM oherwydd nad oedd hwn ar gael yn lleol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwybod am asiantaethau a gwasanaethau cymorth i deuluoedd a manteisio arnynt

- 4.6 Pan ofynnwyd iddynt am gael gafael ar wybodaeth am asiantaethau a gwasanaethau cymorth, dywedodd y rhan fwyaf o rieni eu bod yn gallu cael y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt. Cyfeiriodd llawer o rieni at y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn eu hardal fel ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol. Ymhlith y ffynonellau gwybodaeth eraill a grybwyllwyd yn aml roedd: ymwelydd iechyd neu feddyg teulu, darparwr gofal plant yn eu hardal, gwybodaeth yn y llyfrgell leol, gwybodaeth gan ffrindiau, papur newydd lleol, cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, a Mentrau Iaith Lleol.
- 4.7 Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi ymchwilio i ansawdd y ddarpariaeth oedd ar gael trwy edrych ar wefannau awdurdodau lleol ac adroddiadau swyddogol. Dywedodd un rhiant, er enghraifft, ei bod wedi bod, 'yn darllen adroddiadau gofal plant ARAD¹⁵ yn ddiweddar, 'felly roedd hynny'n golygu fy mod yn ymwybodol o'r cynllun gofal plant.' Nododd y rhiant hwn hefyd fod 'adroddiadau AGC / CIW¹⁶ wedi bod yn ddefnyddiol i gyfeirio atynt' ynghyd â'r wybodaeth a ddarperir ar lafar gan rieni eraill sydd wedi defnyddio gwasanaethau ' (Casnewydd 3). Dywedodd rhiant arall, 'mae gwefan y cyngor ychydig yn gorfforaethol ac oherwydd hynny dydw i ddim yn edrych arni mewn gwirionedd, ond

¹⁵Comisiynwyd Arad Research, ar y cyd â NatCen Social Research, i gynnal gwerthusiad o weithrediad cynnar y Cynnig Gofal Plant.

¹⁶Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau gofal plant a chwarae: gwarchodwyr plant, crèche, gofal dydd llawn, gofal dydd sesiynol, gofal y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored.

rwy'n gwybod bod y wybodaeth yno. Rwy'n gwybod y gallaf ffonio'r adran yn y cyngor' (Blaenau Gwent 3).

Gwasanaethau ac asiantaethau cymorth a ddefnyddid gan rieni yn yr ardaloedd ymchwil

- 4.8 Cyfeiriodd rhieni at ystod o wasanaethau ac asiantaethau cymorth yr oeddent yn eu defnyddio'n lleol. Roedd enghreifftiau o'r asiantaethau a'r grwpiau gwirfoddol hyn yn cynnwys SNAP, grwpiau rhieni a phlant Dechrau'n Deg, sesiynau i rieni a phlant ifanc Cymraeg for Kids¹⁷, Canolfan Enfys Teifi (canolfan blant integredig), Jigso (canolfan blant), grwpiau Ti a Fi, grwpiau chwarae, Clybiau Plant Bach, Amser Stori yn y llyfrgell leol, a dosbarthiadau a chyfleusterau hamdden i rieni a phlant sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol. Mae'n ymddangos bod hygyrchedd i deuluoedd yn amrywio. Ymhlith yr esboniadau a roddwyd gan gyfranogwyr ymchwil roedd:
- Cost: Roedd un rhiant yn ymwybodol o rai grwpiau lleol ac roedd hi'n mynychu grŵp rhieni lleol a oedd yn rhad ac am ddim. Dywedodd fod cyllid yn rhwystr iddi fynychu grwpiau eraill (Abertawe 3).
 - Ymwybyddiaeth: Dywedodd rhiant arall mai'r 'ymwelydd iechyd yw'r unig gefnogaeth y gwnaethom fanteisio arno fel teulu' (CNPT4). Nid oedd y rhiant hwn yn ymwybodol o unrhyw asiantaethau eraill. Dywedodd rhiant arall nad oedd ganddi unrhyw wybodaeth am y gwasanaethau a'r gefnogaeth oedd ar gael i helpu rhieni gyda phlant ifanc yn lleol, 'Dydw i ddim yn gwybod am unrhyw rai mewn gwirionedd. Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod ble roedd y llyfrgell' [nes iddi gyfarfod yno gyda'r ymchwilydd] (Arfordir Clwyd 6).

¹⁷Mae Cymraeg i Blant yn gynllun cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant trwy ddewis gofal plant ac addysg Gymraeg.

- Dewis: Dywedodd rhiant arall nad oedd hi'n defnyddio unrhyw grwpiau cymorth lleol, 'Does dim angen i mi wneud achos bod gen i gefnogaeth gan fy nheulu' (Abertawe 5).

Dylanwadau ar rieni sy'n defnyddio gwasanaethau ac asiantaethau cymorth

- 4.9 Roedd y dylanwadau ar rieni sy'n defnyddio gwasanaethau ac asiantaethau cymorth yn cynnwys gwybodaeth a rennir gan leoliadau gofal plant fel cylchoedd chwarae, gwybodaeth a rennir gan weithwyr iechyd proffesiynol ac argymhellion gan ffrindiau. Esboniodd un rhiant fod staff yn y lleoliad gofal plant yn 'dda iawn am rannu gwybodaeth berthnasol. Maen nhw'n rhoi gwybod i ni am bob math o bethau sy'n digwydd yn lleol ac fe wnân nhw hyd yn oed ffonio pobl yn ôl yr angen' (Arfordir Conwy 7). Soniwyd hefyd am berthynas sefydledig gyda staff lleoliadau gofal plant fel dylanwad pwysig, 'mae'r cylch chwarae yn dda iawn, ac rydw i'n gwybod pwy i ffonio i gael mwy o wybodaeth am bethau. Mae'r staff yno fel teulu i mi' (Arfordir Conwy 5). Dywedodd un rhiant, 'mae ffrindiau'n argymhell gwasanaethau i mi oherwydd nad ydw i'n defnyddio llawer ar y cyfryngau cymdeithasol' (Casnewydd 4). Yn ôl rhiant arall, 'mae'r ymwelydd iechyd yn rhannu gwybodaeth a phenderfynon ni ddefnyddio'r rhai sydd agosaf at adref achos does gen i ddim car ac mae'n rhaid i mi gerdded' (Conwy 1).

Rhwystrau ymarferol rhag manteisio ar y Cynnig (gofal plant wedi'i ariannu a'r CSM)

- 4.10 Mae'r adran hon yn nodi'r rhwystrau ymarferol sy'n atal rhieni rhag manteisio ar eu hawl lawn i ofal plant a'r CSM. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg gwybodaeth am y Cynnig, anhawster cyrchu darpariaeth gofal plant a throsglwyddo rhwng lleoliadau gofal plant a lleoliadau'r CSM, a diffyg hyblygrwydd canfyddedig mewn darpariaeth i weddu ar gyfer anghenion cyflogaeth rhieni.

Diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth

- 4.11 Esboniodd ychydig o rieni eu bod yn cael anhawster cael gafael ar wybodaeth am y Cynnig. Dywedodd un rhiant fod cael mynediad i'r Cynnig, 'ychydig yn ddryslyd ac rwy'n teimlo ei bod hi'n anodd gofyn am gyngor' (Caerdydd 4). Yn ôl y rhieni a gafodd eu cyfweld yn yr astudiaeth hon, mae darparwyr gofal plant yn chwarae rhan bwysig wrth hysbysu rhieni am y Cynnig. O ganlyniad, gall cyswllt cyfyngedig â darparwyr gofal plant arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth rhieni am y Cynnig. Dywedodd un rhiant a nododd nad oedd ganddi lawer o gyswllt â'i darparwr gofal plant, ei bod yn 'gwybod rhywbeth' am y Cynnig. Esboniodd, oherwydd nad oedd hi'n gollwng nac yn casglu ei phlentyn o'r lleoliad gofal plant, 'nad oedd yn rhywbeth roeddwn i wedi meddwl mynd ar ei ôl,' oherwydd nad oedd hi'n teimlo bod ganddi ddigon o wybodaeth amdano ac na chafodd gyfle i ofyn i'r staff gofal plant amdano oherwydd ei hymrwymia dau gwaith ei hun (Abertawe 6).
- 4.12 Nid oedd lleiafrif o rieni yn gwybod am yr hawl i'r CSM ac roeddent yn ansicr ynghylch ble i gael mynediad i addysg gynnar yn eu hardal. Roedd diffyg ymwybyddiaeth yn fwy amlwg ymhlith rhieni a gafodd eu cyfweld yn Abertawe (gan gynnwys mewn aelwydydd dau riant, aelwydydd un rhiant ac aelwydydd incwm isel), lle nododd dros hanner nad oeddent yn ymwybodol o hawl eu plentyn i'r CSM. Er enghraifft, nid oedd un teulu yn gwybod bod gan bob plentyn tair oed hawl i addysg gynnar ac nid oeddent yn siŵr ble i gael mynediad at addysg gynnar (Abertawe 3). Dywedodd rhiant arall, 'Doeddwn i ddim yn ymwybodol bod gan bob plentyn 3 oed yng Nghymru hawl i 12.5 awr o addysg gynnar yr wythnos' (Abertawe 1).
- 4.13 Roedd achosion o ddiffyg ymwybyddiaeth o'r hawl mewn ardaloedd ymchwil eraill fel yng Ngheredigion lle nododd un rhiant, 'does yna ddim llawer o wybodaeth wedi'i rhannu amdano' (Ceredigion 2). Nid oedd rhiant arall yn gwybod sut i gael mynediad at y CSM ac meddai, 'Doeddwn i ddim yn gwybod am hyn tan yn ddiweddar iawn - doeddwn i

ddim wedi clywed am y Cynnig Gofal Plant nes i gydweithiwr sôn amdano' (Arfordir Clwyd 5). Dywedodd rhiant arall ei bod wedi ceisio cael gwybodaeth, ond roedd y broses yn araf. 'Fe wnes i gysylltu â Family Choices, gwefan yr Awdurdod Lleol i gael gwybodaeth' meddai, ond roedd yr Awdurdod Lleol yn araf i ymateb' (CNPT3).

Diffyg darpariaeth gofal plant addas yn yr ardal

- 4.14 Oherwydd diffyg darpariaeth gofal plant addas a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig yn eu hardal, gwnaeth rhai teuluoedd drefniadau gofal plant preifat ac nid oeddent am newid eu trefniadau i gael mynediad i'r Cynnig. Dywedodd un rhiant fod ei phlant wedi mwynhau eu hamser gyda'u gwarchodwr plant presennol, 'sy'n gallu sicrhau hyblygrwydd' (Ceredigion 2). Dywedodd teulu arall yng Ngheredigion nad oeddent yn gallu dod o hyd i ddarpariaeth i weddu i'w hanghenion. Roedd hyn yn cynnwys diffyg gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n siarad Cymraeg, a diffyg gofal plant 'ad hoc' i weddu i anghenion y teulu, lle'r oedd un rhiant mewn cyflogaeth amser llawn a'r llall yn gweithio oriau rhan-amser afreolaidd (Ceredigion 5).
- 4.15 Yng Ngheredigion nododd rhieni fod diffyg darpariaeth gofal plant yn eu hardal yn cyfyngu ar eu dewisiadau o ran cyflogaeth. Dywedodd un rhiant nad oedd hi wedi bod mewn gwaith ers symud i Gymru yn 2018, er ei bod wedi ymchwilio i swyddi rhan-amser. Mae diffyg gofal plant yn yr ardal, 'yn broblem' meddai. 'Byddwn i'n dychwelyd i'r gwaith ac yn hawlio'r Cynnig Gofal Plant pe gallwn ddod o hyd i feithrinfa yn agos' (Ceredigion 4).

Diffyg darpariaeth addas o ran y CSM yn yr ardal

- 4.16 Nid oedd rhai teuluoedd yn manteisio ar hawl eu plentyn i gael addysg gynnar oherwydd nad oedd y CSM ar gael yn eu dewis iaith yn lleol neu roedd yn rhy bell i ffwrdd i fod yn ymarferol. Esboniodd un rhiant ei bod hi'n ymwybodol o'r CSM ac yn gwybod sut i gael gafael arno, ond dim ond gofal plant yr oedd ei Chylch Meithrin lleol yn ei ddarparu ac nid oedd yn derbyn arian ar gyfer darpariaeth y CSM. Roedd y rhiant yn

ymwybodol fod addysg gynnar ar gael mewn ysgolion ond nad oedd yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau nad oeddent yn cael eu cynnal, o fewn yr ALI. Yn dilyn hyn, roedd y rhiant hwn wedi dewis talu i ddefnyddio'r Cylch Meithrin ar gyfer ei phlentyn, er mwyn manteisio ar ddarpariaeth Gymraeg yn lleol (Abertawe 7). Roedd hi'n hapus i'w mab barhau i fynychu'r ddarpariaeth hon, gan ei fod yn elwa o gymysgu â phlant eraill yno, cael ei drochi yn y Gymraeg a dysgu popeth yr oedd angen iddo ei ddysgu ar hyn o bryd.

- 4.17 Dywedodd rhiant arall nad oedd yn gyrru car mai mynychu'r ysgol ddwyieithog agosaf, fyddai'r ddarpariaeth CSM o'i dewis, 'ond byddai hynny'n golygu cerdded deugain munud bob ffordd, a fyddai'n ormod gyda dau o blant bach' (Arfordir Conwy 1). Dywedodd y rhiant, 'Byddwn i wedi hoffi i X fynd i addysg gynnar, ond ni fyddai'n ymarferol. Rwy'n poeni y bydd hi ar ei hôl hi nawr pan fydd hi'n dechrau'r ysgol yn llawn amser ym mis Medi' (Arfordir Conwy 1). Dywedodd y rhiant hwn fod eu hysgol a'u cylch chwarae agosaf yn rhai cyfrwng Cymraeg, nad oedd hi eu heisiau ar gyfer ei phlant.
- 4.18 Nid oedd rhai rhieni yn dymuno symud plant o'u ddarpariaeth bresennol i hawlio'r CSM oherwydd eu bod yn teimlo bod eu plentyn wedi setlo yn y feithrinfa. 'Fe wnaethom benderfynu yn erbyn yr hawl i addysg gynnar oherwydd y byddai'n rhy anodd symud X nawr ei bod wedi dod i arfer â'r feithrinfa,' meddai (Arfordir Clwyd 3).

Problemau gyda throsglwyddo rhwng lleoliadau gofal plant a lleoliadau'r CSM

- 4.19 Nid oedd rhai teuluoedd yn hawlio elfen CSM y Cynnig oherwydd y diffyg trefniadau ar gyfer mynd â'u plentyn o ofal plant i leoliad y CSM. Esboniodd un rhiant, 'rydym yn gymwys ac yn ei ddefnyddio i ryw raddau, ond yn methu â manteisio ar y ddarpariaeth lawn oherwydd problemau gyda throsglwyddo o'r ysgol i'r feithrinfa' (CNPT 1). Roedd eu plentyn yn mynychu meithrinfa ddydd llawn amser yn hytrach na manteisio ar y CSM. Y broblem i'r teulu hwn oedd bod cost ychwanegol trosglwyddo o'r feithrinfa ddydd i leoliad yr ysgol yn uchel. Dywedodd

rhieni eraill hefyd nad oeddent yn gallu manteisio ar y Cynnig yn llawn oherwydd iddyn nhw roedd logisteg a chost symud eu plentyn rhwng y CSM yn yr ysgol a lleoliad gofal plant heb ei gynnal yn rhwystr.

- 4.20 Mewn llawer o achosion, nid oedd trefniadau teithio ar gael i rieni. Meddai un rhiant, 'byddai wedi bod yn ddelfrydol pe gallai meithrinfa fy mhlentyn fod wedi casglu'r plant o'r ysgol neu fod yr ysgol wedi cofrestru i ddarparu'r cynllun gofal plant 30 awr' (NP2). Yn yr un modd, roedd teulu arall wedi penderfynu peidio â hawlio'r hawl gynnar i'r CSM oherwydd, 'nid yw'r feithrinfa'n casglu'r plant o'r llefydd y byddem yn ystyried ei hanfon am addysg gynnar felly rydym wedi penderfynu peidio â manteisio arno, gan y byddai'n fwy cymhleth mynd â hi yno am ddwy awr y dydd' (Arfordir Clwyd 3). Soniwyd hefyd am ddiffyg gofal cofleidiol ac amharu ar drefniadau presennol fel rhwystr. Er enghraifft, i un teulu nad oedd yn manteisio ar y CSM, roedd eu plentyn yn mynychu meithrinfa ddau ddiwrnod yr wythnos yng ngweithle'r fam. Oherwydd nad oedd, 'unrhyw ofal cofleidiol gyda'r feithrinfa bresennol, a dim teulu'n byw yn lleol, byddai'n amharu llawer ar drefniadau'r diwrnod a dydyn ni ddim yn teimlo ei bod yn werth chweil gan ein bod yn gyffyrddus â'r trefniant presennol' (Caerdydd 1).

Nid oedd darpariaeth y Cynnig yn ddigon hyblyg ar gyfer anghenion rhieni

- 4.21 Dywedodd rhieni oedd yn gweithio sifftiau, yn benodol, fod diffyg hyblygrwydd yn y ddarpariaeth yn rhwystr i ddefnyddio'r Cynnig. Eglurodd un rhiant bod peidio gweithio oriau rheolaidd penodol yn her, 'dydyn ni ddim wedi cymryd lle mewn addysg gynnar ar gyfer X oherwydd allwn ni ddim ymrwymo oherwydd ein sifftiau.... Mae X yn fachgen bach cymdeithasol iawn a byddai'n mwynhau'r ysgol yn awr, ond dydy o ddim yn bosibl oherwydd y sifftiau rydyn ni'n dau'n eu gweithio'n llawn amser' (Arfordir Conwy 2). Dywedodd rhieni eraill oedd yn gweithio sifftiau, 'mae'n anodd os ydych chi'n gweithio sifftiau. Mae hyblygrwydd yn bwysig oherwydd ein sifftiau gwaith' (Ceredigion 2). Dywedodd y rhiant hwn ei bod yn hapus gyda'r sefyllfa bresennol o

ddefnyddio gofal plant anffurfiol¹⁸ oherwydd yr hyblygrwydd yr oedd hynny'n ei roi. 'Maen nhw'n hyblyg i ofalu am y plant a dim ond fy mhlant i y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw'. Roedd y rhiant yn ymwybodol y gallai gael gofal plant am ddim ond, 'fyddwn i ddim yn newid y sefyllfa bresennol i arbed arian na defnyddio'r Cynnig oherwydd bod y plant yn mwynhau eu hamser gyda XXXXX, maen nhw'n hyblyg ac yn ddibynadwy' (Ceredigion 2). Teimlai'r rhiant hwn, 'nad yw gofal plant ffurfiol wedi'i sefydlu i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio sifftiau - allan nhw ddim delio gyda newidiadau ar fyr rybudd'.

Rhwystrau gweinyddol i fanteisio ar y Cynnig (gofal plant wedi'i ariannu a'r CSM)

- 4.22 Mae'r adran hon yn nodi'r rhwystrau gweinyddol sy'n atal rhieni rhag cael mynediad i'w hawl llawn i ofal plant a ariennir a'r CSM. Roedd hyn yn cynnwys anawsterau wrth brofi cymhwysedd, anawsterau wrth lenwi'r ffurflen gais a chredoau bod y broses ymgeisio yn ymyrryd gormod â phreifatrwydd personol a theuluol.

Profi cymhwysedd ar gyfer y Cynnig

- 4.23 Dywedodd sawl rhiant nad oeddent yn gallu hawlio'r Cynnig oherwydd eu hamgylchiadau cyflogaeth. Roedd oriau gwaith anghyson yn rhwystri i gael mynediad i'r Cynnig i rai rhieni. Roedd un rhiant o aelwyd un rhiant yn ymwybodol o'r Cynnig ond roedd yn cael rhywfaint o anhawster i'w gyrchu oherwydd nad oedd yn gweithio dros 16 awr yr wythnos yn gyson bob wythnos oherwydd natur ei gwaith fel athrawes cyflenwi. Roedd yn ymddangos bod ei sefyllfa'n gymhleth oherwydd ei bod yn gweithio dros 16 awr rai wythnosau a llai na 16 awr mewn wythnosau eraill (Abertawe 7). Dywedodd rhieni eraill fod eu hamgylchiadau yn eu cyfyngu rhag gallu gweithio am yr isafswm o 16 awr yr wythnos oedd yn ofynnol ac felly eu bod yn cael eu hatal rhag

¹⁸Mae gofal plant anffurfiol yn cyfeirio at ofal plant a ddarperir gan neiniau a theidiau, perthnasau eraill, ffrindiau a chymdogion.

hawlio'r Cynnig. Roedd mwyafrif y rhieni hyn mewn gwaith rhan-amser ond nid oeddent yn gweithio 16 awr bob wythnos yn gyson. Dywedodd un rhiant sengl ar incwm isel, 'hoffwn pe bawn i'n gallu gweithio mwy. Byddai'n gwneud pethau'n haws yn ariannol, ond mae'n rhaid i mi wneud yr hyn alla' i sy'n cyd-fynd â'n bywyd teuluol. Hefyd, mae peidio â bod â chontract penodol yn golygu nad ydw i'n gymwys i gael llawer o'r help gyda gofal plant, sy'n ei wneud yn gylch dieflig mewn gwirionedd' (Arfordir Conwy).

- 4.24 Dywedwyd bod peidio â chael slipiau cyflog na gallu profi oriau gwaith yn achosi problemau. Roedd rhai teuluoedd cymwys yn cael anawsterau wrth ddarparu tystiolaeth, er eu bod yn gweithio mwy nag un awr ar bymtheg yr wythnos. Nid oedd teulu lle'r oedd y ddau riant yn gweithio am fwy nag un awr ar bymtheg yr wythnos ac yn ennill llai na £100,000 y flwyddyn yn gallu hawlio, 'oherwydd bod X yn hunangyflogedig, yn ffermio'i dir ei hun ac felly dydy o ddim yn gallu dangos y slipiau cyflog gofynnol' (Abertawe 1)). Dywedodd teulu lle'r oedd y ddau riant mewn gwaith ac un rhiant yn hunangyflogedig nad oeddent yn gallu hawlio'r Cynnig, oherwydd nad oedd y tad yn talu cyflog iddo'i hun ac nid oedd yn bosibl hawlio'r Cynnig (Ceredigion 5).

Gweithio mewn cyflogaeth ansicr

- 4.25 Roedd rhieni mewn amodau gwaith ansicr yn ei chael hi'n anodd cwrdd â'r gofynion cymhwyso a manteisio ar y Cynnig. Dangosir hyn ym mhrofiad teulu lle roedd un rhiant yn hunangyflogedig amser llawn mewn amaethyddiaeth a'r rhiant arall yn gweithio'n rhan-amser ym maes lletygarwch, a oedd yn siomedig nad oeddent yn gallu hawlio'r Cynnig. Meddai'r rhiant, 'pan gefais y ffurflen gofal plant, roeddwn i'n meddwl mai cyfanswm o 32 awr oedd angen i'r ddau riant weithio, felly gan fod X yn gweithio dros 40 awr, cymerais na fyddai gennym unrhyw broblemau. Pan sylweddolais fod angen i mi weithio 16 awr, fe lwyddais i ddod o hyd i swydd a oedd yn ffitio. Ond oherwydd natur y swydd, rwy'n aml yn cael fy anfon adref yn gynnar os yw'r dafarn yn dawel.

Roeddwn yn wirioneddol siomedig o ddarganfod wedyn ein bod yn dal i fethu ei gael' (Arfordir Conwy 7). Yn aml roedd yn ofynnol i rieni ar gontractau ansicr, dim oriau, ar gontractau asiantaeth neu mewn cyflogaeth â chyflog isel weithio oriau gwaith ansafonol - sifftiau hir ar benwythnosau neu gyda'r nos - a gweithio i batrymau sifft afreolaidd. Roedd gweithio i asiantaeth a chontractau dim oriau yn golygu gwaith ansicr gydag oriau anrhagweladwy ac yn aml naill ai rhy ychydig o oriau neu ormod o oriau a oedd i lawer yn effeithio ar eu cymhwysedd i wneud cais am y Cynnig.

Llenwi ffurflenni cymhleth

- 4.26 Dywedwyd bod llenwi'r ffurflen gais i hawlio'r Cynnig yn rhwystr i fanteisio arno gan rai rhieni. Roedd un teulu'n gwybod sut i gael gwybodaeth am y Cynnig, ond nid oedd y rhiant, 'yn teimlo'n hyderus wrth llenwi'r holl waith papur angenrheidiol, yn enwedig gan fod cymaint o fy amser yn ddiweddar wedi cael ei roi i faterion teuluol' (Abertawe 5). Dywedodd un rhiant y gallai'r ffurflenni fod yn 'gliriach' (Arfordir Conwy 7). Nid oedd teulu cymwys arall yn dymuno mynd trwy'r broses o llenwi ffurflenni a darparu tystiolaeth o slipiau cyflog ac ati oherwydd bod y tad yn hunangyflogedig ac roeddent yn, 'ymwybodol bod y broses yn fwy cymhleth o dan yr amgylchiadau hyn' (Abertawe 4). Iddyn nhw, roedd hyn yn rhwystr ac yn eu hatal rhag defnyddio'r Cynnig. Roedd teulu un rhiant arall wedi clywed am y Cynnig ac wedi dechrau ar y broses o wneud cais. Ond roedd y rhiant yn teimlo, 'mae'r ffurflenni'n hirwyntog iawn, ac allwn i ddim neilltuo'r amser oedd ei angen i'w llenwi' (Abertawe 9). Roedd rhiant a oedd yn gymwys ond ddim yn hawlio, hefyd yn tybio bod y broses ymgeisio yn anodd ac meddai, 'pe bawn i'n meddwl bod y ffurflen yn wirioneddol hawdd a fy mod wedi ei llenwi cyn gynted ag yr oedd X yn gymwys yna gallai hynny fod wedi bod yn well' (Arfordir Clwyd 4).

Mae'r broses ymgeisio yn ymyrryd gormod ar breifatrwydd y teulu

- 4.27 Dywedodd rhai rhieni eu bod yn teimlo bod y ffurflen gais yn ymyrryd ar eu bywyd teuluol, ac nad oeddent yn cytuno â faint o wybodaeth oedd yn ofynnol i gofrestru ar gyfer y Cynnig. Dywedodd un rhiant ei bod yn teimlo bod y ffurflen gais yn 'ymyrryd' (Ceredigion 1). Dywedodd teulu arall eu bod, 'yn hapus i dalu am ffioedd gofal plant oherwydd dydyn ni ddim am fynd trwy'r broses o lenwi ffurflenni a rhoi tystiolaeth o slipiau cyflog ac ati' (Abertawe 4). Dywedodd rhiant arall nad oedd hi'n cytuno â'r Cynnig ar y sail bod y broses gwneud cais yn ei gwneud yn ofynnol i deuluoedd, 'rannu gormod o wybodaeth bersonol'. Roedd hi'n ystyried bod y broses yn, 'ymyrryd yn ormodol' ac roedd hi'n amharod i rannu gwybodaeth am gyllid teulu ac unrhyw faterion eraill yn ymwneud ag amgylchiadau personol (Abertawe 2).

Materion fforddiadwyedd

- 4.28 Nododd rhai teuluoedd a gymerodd ran yn yr ymchwil, bod cost gofal plant amgen yn cyfyngu ar allu'r teulu i gael mynediad at ddarpariaeth ar gyfer eu plentyn pan nad oedd darparwr y ddarpariaeth a ddewiswyd ganddyn nhw wedi ymrwymo i'r Cynnig. Mewn rhai teuluoedd, roedd rhieni'n talu am elfennau o ofal plant eu hunain, ond roedd y plentyn yn derbyn darpariaeth gyfyngedig oherwydd problemau o ran fforddiadwyedd i'r teulu. Dywedodd teulu ag un rhiant hunangyflogedig, er eu bod yn gymwys i gael y Cynnig, na allent fanteisio arno oherwydd nad oedd y cylch chwarae y mae eu plentyn yn ei fynychu wedi ymrwymo i'r Cynnig oherwydd model darpariaeth yr awdurdod lleol ac felly mae'r teulu, 'yn talu o'n harian ein hunain iddi gael addysg cyfrwng Cymraeg nad yw ar gael yn ein hysgol leol'. Dywedon nhw, 'os ydyn ni mewn sefyllfa lle na allwn fforddio hyn yn ariannol, yn anffodus ni fydd X yn gallu mynychu' (Abertawe 1).
- 4.29 Roedd teuluoedd eraill hefyd yn talu am ddarpariaeth gofal plant am gyfnodau cyfyngedig oherwydd y costau dan sylw. Er enghraifft, dywedodd teulu o gefndir hunangyflogedig, 'dim ond ar ddydd lau bob

yn ail wythnos y gallwn ni fforddio anfon X i'r Cylch' (Arfordir Conwy 7). Nid oedd rhiant sengl incwm isel yn gallu talu am ddarpariaeth gofal plant ar ôl gwahanu oddi wrth dad y plentyn. Meddai'r rhiant, 'Byddwn i wrth fy modd yn anfon X i'r cylch chwarae ond dydyn ni ddim yn gymwys i gael unrhyw gymorth gyda chyllid, ac alla' i ddim ei fforddio mewn gwirionedd' (Arfordir Conwy 8).

Fforddiadwyedd i rieni gydag amryw o blant sy'n agos mewn oedran

- 4.30 Dywedodd rhai rhieni gyda phlant iau ychwanegol fod diffyg gofal plant am ddim i blant o dan dair oed yn ychwanegu'n fawr at eu costau gofal plant posib. Roedd hyn yn rhwystr sylweddol i rieni incwm isel yn benodol. Roedd yn well gan un rhiant incwm isel weithio llai ac aros gartref i ofalu am y plant, 'na defnyddio fy nghyflog i gyd i dalu am ofal plant'. Roedd gan y teulu hwn blentyn iau hefyd yn ogystal â phlentyn tair oed ac esboniodd y rhiant ymhellach, 'dydy gofal plant i un plentyn yn dda i ddim i ni. Rydw i wedi newid fy ngwaith i fod angen cyn lleied o ofal plant â phosibl oherwydd allwn ni ddim fforddio talu am X' (Arfordir Conwy 1). Nid yw plant o dan dair oed yn gymwys ar gyfer y Cynnig ar hyn o bryd. Gall hyn achosi rhwystr sylweddol i rieni allu bod mewn cyflogaeth am fwy nag 16 awr yr wythnos os nad oes darpariaeth gofal plant amgen ar gael.

Bod ar gyfuniad o fudd-daliadau

- 4.31 Roedd nifer o'r rhieni a gyfwelwyd yn rhwystredig na allent wneud cais am y Cynnig, er eu bod yn teimlo bod angen y gefnogaeth arnynt er mwyn manteisio arno. Mewn rhai achosion, roedd hyn oherwydd eu bod yn derbyn budd-daliadau eraill. Mae'r canlynol yn enghraifft o sut esboniodd un rhiant sengl ei sefyllfa: 'alla' i ddim manteisio ar y Cynnig Gofal Plant oherwydd mae'n golygu y byddwn yn colli fy holl fudd-dal tai. Rydw i'n cael budd-dal tai dim ond oherwydd fy mod i'n cael credydau treth gofal plant. Os cymeraf y Cynnig Gofal Plant (20 awr o ofal plant) yna alla' i ddim hawlio credydau treth gofal plant ac yna byddwn yn colli budd-dal tai. Ar hyn o bryd, gallaf gael cymhorthdal

tuag at ei hamser yn y cylch chwarae gan gredydau treth gofal plant. Pan ddywedodd X yn y cylch chwarae wrthyf am y cynnig gofal plant, dywedodd fy mam wrthyf am wirio ynghylch fy mudd-dal tai yn gyntaf, ac fe wnaethon nhw ddweud wrtha' i na fyddwn yn ei gael pe bawn yn cymryd y cynnig gofal plant. Mae fy rhent yn £500 y mis ond dim ond £100 rwy'n ei dalu, mae'r dreth gyngor yn £100 y mis ond dim ond £12 rwy'n ei dalu. Felly dwi'n cael £488 o help bob mis. Mae gofal plant am dri phrynhawn yr wythnos yn costio £260 i mi felly byddwn i £228 ar fy ngholled pe bawn i'n cymryd y Cynnig Gofal Plant. Mae wir yn fy ngwylltio oherwydd mae gwir angen yr help arna' i' (Arfordir Conwy 5).

Credoau ac ymddygiadau sy'n annog ymgysylltiad â gofal plant a ariennir a'r CSM

- 4.32 Yn yr adran hon, rydym yn ystyried rhai o'r credoau a fynegwyd gan rieni mewn perthynas â'u penderfyniadau ynghylch i ba raddau y gwnaethant ddewis derbyn y Cynnig, i nodi darpar alluogwyr i ymgysylltu â'r gwasanaeth addysg gynnar a gofal plant. Mae'r adran hon hefyd yn canolbwyntio ar brofiadau rhieni o ddefnyddio'r CSM a gofal plant fel y'u mynegwyd gan y rhieni a gyfwelwyd. Yn gyffredinol, nododd rhieni eu bod yn teimlo bod mynychu'r CSM a gofal plant yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu plentyn.

Pwysigrwydd gwaith a chael mynediad i'r farchnad lafur

- 4.33 Mynegodd rhieni wahanol gredoau mewn perthynas â phwysigrwydd gwaith a defnyddio peth o'u cymhwysedd ar gyfer y CSM a gofal plant i ailymuno â'r farchnad lafur. I rai, roedd cymhellion ariannol o'r pwys mwyaf. Er enghraifft, eglurodd rhiant a oedd yn defnyddio elfen gofal plant y Cynnig i'w plentyn, 'mae gwaith yn anghenraid, felly mae'n rhaid i'm plentyn i fynd i'r Feithrinfa' (Caerdydd 4). Esboniodd rhiant a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r Cynnig i raddau, ei bod wedi dychwelyd i'r gwaith, 'cyn gynted â phosibl ar ôl cael plentyn arall oherwydd pwysau ariannol' (CNPT1).

- 4.34 Ar hyn o bryd roedd un rhiant yn defnyddio darpariaeth Dechrau'n Deg ond nid oedd yn gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos ac felly nid oedd yn gymwys ar gyfer y Cynnig ar hyn o bryd. Dywedodd y rhiant hwn ei bod yn ei chael hi'n anodd gweithio a magu plentyn yr un pryd fel rhiant sengl. Nid oedd hi am roi'r gorau i weithio, 'oherwydd pan fydd X yn mynd i'r ysgol rwy'n gobeithio cynyddu fy oriau gwaith a defnyddio'r Cynnig' (CNPT 6).
- 4.35 I eraill, roedd bod mewn cyflogaeth yn bwysig iawn. Meddai un rhiant, 'mae gwaith yn bwysig iawn i mi a byddwn i'n gweithio, hyd yn oed pe na bai angen yr arian arna' i.' Hawliodd y rhiant hwn elfen CSM y Cynnig, ond nid yr hawl lawn oherwydd nad oedd ei phlentyn yn, 'hapus iawn yn mynd i addysg gynnar' (Ceredigion 1). Roedd y rhiant hwn wedi blaenoriaethu addysg gynnar dros ofal plant i leihau pryder y plentyn ac esboniodd fod aelodau'r teulu'n darparu gofal plant i'w galluogi hi i ddal i weithio.
- 4.36 Soniodd rhai mamau am eu hangen i weithio a'r buddion o ran iechyd meddwl a gawsent wrth weithio. Er enghraifft, meddai un rhiant, 'rwy'n teimlo'n gadarnhaol am fod yn fam sy'n mynd i weithio'n rhan-amser, mae'n rhywbeth 'i mi' (Caerdydd 1). Meddai rhiant arall, 'mae'n anodd jyglo teulu o amgylch ymrwymadau gwaith ond rwy'n teimlo bod mynd i'r gwaith yn fuddiol i'm hiechyd meddwl fy hun er nad yw'n gwneud llawer o synnwyr yn ariannol' (CNPT4).
- 4.37 Dywedodd rhiant a oedd yn defnyddio gofal plant a ddarperid gan warchodwr plant y byddai wrth ei bodd yn aros gartref gyda'r plant trwy'r amser, 'ond dwi'n gwybod y byddwn yn diflasu ac yn colli cymdeithasu â'm cydweithwyr yn y gwaith. Rwy'n mwynhau'r bywyd gartref gyda'r plant a bywyd gwaith. Rwy'n teimlo'n euog weithiau pan fydda' i'n mynd â'r plant at y gwarchodwr plant ond rwy'n gwybod hefyd y byddant yn iawn oherwydd ein bod yn dewis gwarchodwr plant yn hytrach na meithrinfa gyda channoedd o blant ynddi' (Casnewydd 2). Mae'n ymddangos bod gwarchodwyr plant oedd yn cynnig gofal i lai o blant yn

rhoi mwy o sicrwydd i rai o'r rhieni a gafodd eu cyfweld. Canfu astudiaeth gan PACEY yn 2016 fod penderfyniadau ynghylch pwy fyddai'n gofalu am eu plant yn bryder mawr i rieni sy'n paratoi i ddychwelyd i'r gwaith; roedd llawer yn bryderus na fyddent yn dod o hyd i ofal plant addas neu y byddai plentyn yn dod yn ddim ond un wyneb arall mewn ystafell orlawn.

Pwysigrwydd cymdeithasoli plant yn gynnar y tu allan i'r teulu a chyda'u cyfoedion

- 4.38 Roedd credu ym mhwsigrwydd cymdeithasoli plentyn yn gynnar y tu allan i'r teulu a chyda grŵp cyfoedion y plentyn yn rheswm dros fanteisio ar y Cynnig neu elfennau o'r Cynnig i rai rhieni. Ym marn un rhiant, 'mae'r ysgol wir yn eu dysgu i ymddwyn ac yn eu helpu i ddysgu am barch a chyfeillgarwch' (Arfordir Clwyd 4). Teimlai rhiant arall ei bod yn, 'bwysig iawn' i blentyn fynychu addysg gynnar oherwydd, 'allwn ni ddim helpu'n plant o hyd felly mae'n hanfodol; mae angen i blant gymdeithasu â phlant eraill a dysgu'r sgiliau gwerthfawr hyn' (Abertawe 4). Soniodd rhieni eraill am effaith gadarnhaol gwneud ffrindiau trwy fynychu addysg gynnar, 'rwy'n teimlo bod y Cylch yn bwysig fel y gall plant wneud ffrindiau ac rwy'n hapus ei fod yno i wneud trosglwyddo i'r ysgol yn haws pan ddaw'r amser' (Ceredigion 3). Cydnabu un rhiant fod mynd â phlentyn i leoliad addysg gynnar yn, 'tynnu ar linyddau fy nghalon' ond roedd yn cydnabod, 'mae'n beth iach i'r plant ddysgu cymdeithasu ac mae'n beth da i'm hiechyd meddwl fy hun' (CNPT4).

Pwysigrwydd datblygu sgiliau dysgu cynnar a bod yn 'barod i'r ysgol'

- 4.39 Mynegodd rhieni eu credoau am bwysigrwydd datblygu sgiliau dysgu cynnar a bod yn 'barod i'r ysgol'¹⁹ trwy ddefnyddio'r Cynnig. Dywedodd llawer o rieni eu bod yn teimlo bod addysg gynnar yn fuddiol i blant am

¹⁹ Mae ymchwil gan PACEY (2013) wedi canfod bod gweithwyr proffesiynol, rhieni ac athrawon blyneddodd cynnar yn cytuno y dylai 'parod i'r ysgol' olygu bod plant: â sgiliau cymdeithasol cryf, yn gallu ymdopi'n emosiynol â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni, yn gymharol annibynnol o ran eu gofal personol eu hunain, a bod ganddynt chwilfrydedd am y byd ac awydd i ddysgu.

resymau addysgol. Er enghraifft, dywedodd rhieni yr oedd eu plant yn manteisio ar y CSM, 'mae addysg gynnar yn dda oherwydd byddant yn gwneud yn well yn gynnar' (Ceredigion 6); 'mae addysg dda yn bwysig iawn' (Abertawe 10). Meddai un rhiant, 'mae addysg gynnar yn gadarnhaol iawn i ddatblygiad plentyn, yn enwedig ar lefel gymdeithasol'. Teimlai, er nad yw rhai meithrinfeydd yn cynnig y Cyfnod Sylfaen, fod dilyn ei egwyddorion yn dal i hyrwyddo datblygiad plentyn (CNPT3). Roedd rhiant arall o'r farn, 'mae'n bwysig iawn i blant fynychu [darpariaeth] cyn-ysgol cyn iddynt ddechrau addysg amser llawn. Mae'n hyrwyddo datblygiad cynnar ac i rai plant gall gynnig dechrau gwell nag y byddent wedi'i gael gyda rhieni sy'n aros gartref' (CNPT4). Credai rhiant arall, 'mae plant yn fwy hyderus ac maent wedi datblygu mwy. Mae ganddynt well sgiliau chwarae cymdeithasol a rhifedd a llythrennedd sylfaenol. Ac mae'n hwyl i'r plant' (CNPT5). Canmolodd rhiant hefyd yr ethos chwarae sydd wedi'i ymgorffori yn y Cyfnod Sylfaen, 'mae fy ffrindiau yn Lloegr yn eithaf cenfigennus o'r system sydd gennym yma. Roedd eu plant nhw yn cael rhestrau sillafu hir yn bump oed a doedden nhw ddim wedi cael yr un ethos chwarae o gwbl' (Arfordir Clwyd 1).

Effeithiau cadarnhaol y CSM a gofal plant ar blentyn

- 4.40 Mynegodd sawl un o'r rhieni a gyfwelwyd eu cred bod y CSM a gofal plant yn cael amryw o effeithiau cadarnhaol ar blentyn. Teimlai rhai rhieni fod mynychu darpariaeth gofal plant ffurfiol ac addysg gynnar yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad iaith eu plentyn. 'Roedd fy mhlentyn i yn hwyr yn datblygu cyfathrebu llafar' meddai un rhiant, 'ac mae'r Cylch wedi helpu sgiliau cyfathrebu X' (Abertawe 1). 'Mae mynd i'r ysgol yn rhan-amser yn helpu fy mhlentyn yn aruthrol i ennill sgiliau cymdeithasol 'Prydeinig' a'r iaith Saesneg' meddai rhiant o gefndir treftadaeth gymysg (Arfordir Conwy 3). Roedd rhiant arall a oedd yn awyddus i'w phlentyn ddysgu Cymraeg yn yr ysgol yn 'hapus' gyda chynnydd ei phlentyn yn y Gymraeg yn y Cylch Lleol, 'achos dydw i ddim yn hyderus yn siarad Cymraeg gartref' (Ceredigion 3).

- 4.41 Roedd rhieni yr oedd eu plant yn profi cynnwrf ysgariad neu wahaniad yn credu bod mynychu gofal plant neu gylch chwarae'r CSM, 'yn bendant yn cael effaith gadarnhaol, mae'n nodwedd gyson ym mywydau'r plant ar hyn o bryd' meddai un fam (Abertawe 10). 'Bydd yn rhoi sefydlogrwydd i'r plentyn,' meddai tad sydd wedi gwahanu, 'ac ymdeimlad o fod yn ddiogel' (Blaenau Gwent 1).
- 4.42 Roedd rhai rhieni nad oeddent yn gallu anfon eu plentyn i ddarpariaeth y CSM oherwydd eu hamgylchiadau (e.e. diffyg cludiant, gwaith sifft) yn teimlo bod hyn wedi bod yn anfantais i'w plentyn ac yn gobeithio y byddai eu plentyn yn gallu gwneud iawn am hyn pan fyddai'n dechrau yn yr ysgol. Meddai un rhiant, 'rwy'n credu y byddai X yn llawer mwy hyderus gyda phlant eraill pe bai hi wedi mynychu addysg gynnar. Rwy'n credu y byddai hi wedi dysgu pethau defnyddiol eraill hefyd, ond gobeithio ei bod hi'n ddigon deallus i ddal i fyny' (Arfordir Conwy 1) . Meddai rhiant arall, 'rwy'n credu y byddai X yn mwynhau dysgu a chymdeithasu a gobeithio y bydd yn gwneud ffrindiau pan fydd yn ymuno â'r ysgol oherwydd bydd pawb arall yn adnabod ei gilydd yn barod' (Arfordir Conwy 2).

Profiadau cadarnhaol o'r CSM a gofal plant

- 4.43 Nododd mwyafrif y rhieni yr oedd eu plant wedi defnyddio'r ddarpariaeth hon, eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol o fynychu'r CSM neu ofal plant. Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi bod yn amheus o ddefnyddio addysg gynnar a / neu ofal plant ond roedd eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaethau wedi newid eu meddyliau. Meddai un rhiant, 'roeddwn i wedi clywed straeon negyddol am greches, ac roeddwn i'n amharod i ddefnyddio unrhyw addysg gynnar neu ofal plant ar y dechrau' (Abertawe 1). Dywedodd rhiant arall nad oedd hi wedi defnyddio'r CSM na gofal plant ar gyfer ei phlentyn hynaf, gan mai hwn oedd ei phlentyn cyntaf ac, 'roeddwn i'n or-amddiffynnol iawn ohoni ac roeddwn i'n dibynnu'n helaeth ar fy mam am help gyda gofal plant' (Abertawe 6). Ymhellach esboniodd y rhiant ei bod wedi gweld,

'rhaglenni teledu cudd o bethau drwg yn digwydd mewn meithrinfeydd ac roeddwn i'n bryderus am anfon fy mhlentyn i un'. Meddai, 'mae fy marn wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf' ac, 'rwy'n defnyddio'r Cylch lleol ar gyfer fy ail blentyn ac rwy'n hapus iawn gyda nhw' (Abertawe 6). Roedd un rhiant yn gefnogol i addysg gynnar, er bod ganddi rai amheuan ynghylch ansawdd gofal plant, 'rwy'n gefnogol i addysg gynnar os ydy'r plentyn unigol yn barod. Ond mae gofal plant yn gallu amrywio o ran ei safon. Dydy'r syniad o addysg gynnar ddim yn fy mhoeni - i'r gwrthwyneb yn llwyr' (CNPT3).

Effaith profiadau rhieni eu hunain o ofal plant ac addysg gynnar

- 4.44 Dywedodd llawer o rieni eu bod wedi mynychu addysg gynnar eu hunain ac, i raddau llai, gofal plant. Nid oedd rhai eraill wedi mynychu addysg gynnar na gofal plant o gwbl, oherwydd bod rhiant gartref i ofalu amdany'n nhw a dechreuon nhw'r ysgol yn bedair neu bum mlwydd oed. Beth bynnag oedd profiadau plentyndod y rhieni, roedd yn amlwg eu bod yn llywio credoau'r rhieni ond bod ffactorau eraill yn aml ar waith yn eu penderfyniadau fel oedolion ynghylch addysg a gofal plant eu plentyn eu hunain.

'Wnaeth o ddim drwg i mi'

- 4.45 Roedd rhai rhieni'n manteisio ar y CSM ar gyfer eu plentyn, yn union fel yr oedden nhw wedi'i wneud eu hunain fel plant ifanc. Er enghraifft, dywedodd un rhiant, gan fyfyrir ar ei brofiad personol, 'mynychais addysg gynnar fel plentyn tair / pedair oed ac ni wnaeth unrhyw niwed i mi, felly does gen i ddim rheswm i beidio ag anfon fy mhlant heblaw os nad ydyn nhw'n barod i'r ysgol. Credaf y dylai plant fynychu addysg gynnar ond dyw hynny o reidrwydd ddim yn golygu o fewn lleoliad ysgol' (CNPT3).

'Rwy'n benderfynol nad yw fy mhlant yn mynd i ddioddef yr un dynged'

- 4.46 Soniodd y rhieni a gyfwelwyd nad oeddent yn cofio unrhyw brofiadau cadarnhaol o addysg gynnar nac ysgol eu hunain, am fod eisiau i'w plentyn gael profiad gwahanol iddyn nhw. Dywedodd rhiant a oedd yn

ceisio cynyddu ei horiau gwaith cyfredol i dros 16 awr i fod yn gymwys am y Cynnig, 'wnes i ddim dechrau mewn grŵp cyn-ysgol na meithrinfa ac roeddwn yn bendant ar ei hól hi'n ddatblygiadol oherwydd hyn. Cymerodd amser i ddal i fyny ac roeddwn yn swil iawn yn dechrau'r ysgol oherwydd diffyg cymdeithasoli cynnar' (CNPT3). Dywedodd rhiant nad oedd yn gymwys oherwydd nad oedd mewn cyflogaeth ei bod yn teimlo ei bod wedi gwastraffu ei hamser yn yr ysgol ac nad oedd, 'dim cefnogaeth nac anogaeth i bobl fel fi' (Ceredigion 6). Roedd hi'n gofidio nad oedd hi wedi adolygu mwy a chael mwy o gymwysterau. Ni feddylwyd erioed am Safon Uwch na phrifysgol. Nid oedd unrhyw un yn ei theulu erioed wedi gwneud dim mwy na gadael yr ysgol yn 16 oed. Ond roedd hi'n teimlo, 'mae addysg gynnar yn dda oherwydd bydd plant yn gwneud yn well yn nes ymlaen' (Ceredigion 6).

- 4.47 Dywedodd rhiant arall mai anaml y byddai'n mynd i'r ysgol ei hun ac, o ganlyniad, gadawodd yr ysgol heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, 'rwy'n benderfynol nad yw fy mhlant yn mynd i ddioddef yr un dynged'. Dywedodd ei fod yn cefnogi addysg gynnar a gofal plant a'i fod yn credu bod 'plant nid yn unig yn datblygu'n academiaidd ond hefyd yn dysgu sut i gymdeithasu a rhannu' trwy fynychu'r ddarpariaeth hon. Nid oedd ei blentyn yn manteisio ar y CSM ond talai'r teulu i'r plentyn fynd i gylch chwarae un diwrnod yr wythnos gan ddweud na allent fforddio talu am fwy na hynny. Nid oedd y teulu hwn yn hawlio'r Cynnig ac nid oeddent yn ymddangos fel pe baent yn ymwybodol o ba gymorth oedd ar gael iddynt (Abertawe 3).

Gwneud pethau'n wahanol

- 4.48 Roedd rhieni eraill yn fwy anfoddog o wneud pethau'n wahanol i'r ffordd y cawsant eu magu eu hunain. Esboniodd un rhiant fod yn rhaid iddi hi ddychwelyd i'r gwaith cyn gynted â phosibl ar ôl genedigaeth ei phlentyn oherwydd pwysau ariannol. Roedd hyn yn wahanol i'w phrofiad ei hun fel plentyn, 'roedd fy mam fy hun yn fam oedd yn aros gartref ac yn gallu rhoi sylw llawn i fagu teulu' (CNPT1).

Credoau ac ymddygiadau sy'n cyfyngu ar ymgysylltu â gofal plant a ariennir a'r CSM

- 4.49 Roedd y credoau am ofal plant ac addysg gynnar sy'n cyfyngu ar ymgysylltiad â'r Cynnig a'r CSM yn amrywio yn ôl credoau rhieni ynghylch pa brofiadau sydd bwysicaf i blant, eu credoau ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am fagu plant bach, a'u gwerthoedd diwylliannol a chrefyddol.

Fi yw'r person gorau i ofalu am fy mhlentyn a'i ddysgu

- 4.50 Teimlai rhai rhieni mai nhw oedd y bobl orau i ddarparu holl anghenion gofal plant ac addysg gynnar eu plentyn. Esboniodd un rhiant a oedd wedi dewis addysgu ei phlant gartref, 'roeddwn bob amser yn meddwl y byddwn yn defnyddio darparwr gofal plant cyn i mi gael plant. Ond newidiodd fy meddwl yn llwyr pan oeddwn yn feichiog. Pwy well i roi'r hyn sydd ei angen arnyn nhw i blant yn emosiynol ac yn academiaidd na'u mam sy'n eu hadnabod orau?' (Caerfyrddin 1). Pwysleisiodd y rhiant hwn nad oedd hi, 'yn gwrthwynebu'r system addysg,' ond credai, 'fi yw eu mam a fi sy'n gwybod beth sydd orau iddyn nhw. Bydd y plant yn symud ymlaen i'r ysgol pan fyddan nhw'n cyrraedd oedran iau hwyr ... dydw i ddim gartref yn gwneud dim bob dydd, rydw i gartref yn addysgu, yn magu fy mechgyn ac yn rhoi'r gorau i gyd iddyn nhw.'

Darparu gofal plant ac addysg gynnar yn unol ag egwyddorion fy ffydd

- 4.51 Dywedodd nifer fach o deuluoedd a gafodd eu cyfweld yn ystod y gwaith maes fod gan gredoau crefyddol ddylanwad ar eu dewisiadau addysgol i'w plant. Dewisodd un teulu beidio â manteisio ar y Cynnig oherwydd bod magu eu plant yn unol ag egwyddorion eu ffydd eu hunain yn bwysig iddyn nhw. Dywedodd y teulu hwn eu bod nhw, fel Cristnogion, yn ymarfer eu ffydd fel teulu. 'Rydyn ni am i'r plant gael magwraeth Gristnogol. Ond fe benderfynon ni beidio â'u hanfon i'r [CSM] mewn ysgol ffydd er mwyn i ni allu rhoi'r fagwraeth honno iddyn nhw ein hunain. Rydyn ni am iddyn nhw allu cyfrannu'n gadarnhaol at y byd. Yr eglwys yw canolbwynt ein rhwydwaith cymdeithasol. Rydym yn

mynychu grŵp mam a'i phlentyn yn yr eglwys a grwpiau plant eraill yn y gymuned' (Casnewydd 4).

'Mae addysg yn yr ysgol yn dechrau yn rhy gynnar'

- 4.52 Mynegodd rhai rhieni farn fwy gofalus am addysg gynnar a gofal plant. Soniodd rhai am eu hancicwydd ynghylch cysondeb y ddarpariaeth, er enghraifft, 'rwy'n credu bod ansawdd addysg gynnar a gofal plant yn amrywio'n fawr' (Arfordir Clwyd 5). Credai sawl rhiant y dylid rhoi mwy o bwyslais ar blant yn aros o fewn y teulu hyd nes eu bod yn hŷn, 'hoffwn pe bai'r diwylliant gofal plant yng Nghymru yn debycach i wledydd Sgandinafia lle rhoddir cymaint mwy o bwyslais ar deulu, ac mae plant yn dechrau'r ysgol yn hwyrach' meddai un rhiant (Ceredigion 7). Ategwyd y farn hon gan riant arall a ddywedodd, 'mae addysg yn bwysig ond mae mynd i'r ysgol yn bedair oed yn ddigon cynnar ... mae addysg gartref yn bwysicach.' Credai'r rhiant hwn hefyd fod gormod o ffurfioldeb yn y ffordd y mae rhai lleoliadau yn gweithredu'r CSM, 'rwy'n hoffi'r cysyniad o ddysgu trwy chwarae, er fy mod yn credu bod rhai ysgolion yn ei wneud yn rhy ffurfiol' (Casnewydd 1).

'Mae'n well gen i gadw gofal plant o fewn y teulu'

- 4.53 Defnyddiai sawl rhiant ddarpariaeth y CSM ond ni wnaethant ddefnyddio elfen gofal plant y Cynnig. Un o'r rhesymau amlaf dros beidio â defnyddio elfen gofal plant y Cynnig oedd dewis, ac yn aml ffafriaeth gref, o blaid cadw gofal plant yn y teulu. Dywedodd un rhiant a dalodd am i'w phlentyn fynd i'r Cylch Meithrin²⁰ ei bod yn credu bod gwasanaethau'r Cylch Meithrin lleol yn fuddiol i'w phlentyn trwy roi'r cyfle iddi chwarae gyda ffrindiau. Ond ni fyddai'r rhiant yn defnyddio darpariaeth y cylch chwarae am fwy na phedwar bore'r wythnos ac ni fyddai'n defnyddio unrhyw fath arall o ofal plant oherwydd ei bod yn dweud ei bod yn teimlo'n anghyfforddus ynglŷn â gadael ei phlentyn am

²⁰Nid yw Cyngor Abertawe yn darparu'r CSM mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal, fel Cylchoedd Meithrin. Mae rhieni'n talu am ddarpariaeth Cylch Meithrin yn Abertawe.

fwy na hynny, pan oedd ei mam ar gael i helpu. Dywedodd y byddai'n well ganddi i'w phlentyn, 'gael gofal gan y teulu na gwasanaethau gofal plant oherwydd y berthynas arbennig rhwng aelodau'r teulu' (Abertawe 6).

- 4.54 Roedd rhiant arall a oedd yn hapus i'w phlentyn fynychu'r CSM yn rhan-amser mewn cylch chwarae lleol yn eithaf pendant nad oedd unrhyw fudd cadarnhaol i blentyn gael gofal plant ffurfiol, 'dylai plant fod gartref ac nid cael eu gollwng gyda gwarchodwyr plant bob dydd' (Ceredigion 3). Dywedodd rhiant arall, 'dim ond y pum mlynedd gyntaf o fywyd sydd gan blant i'w treulio gartref i wneud fel y dymunant cyn bod yn rhaid iddynt fynd i'r ysgol a dylai pawb gael cyfle i fod yn fam neu'n dad sy'n aros gartref' (Ceredigion7). Roedd sawl rhiant yn rhannu'r gred hon gan ddweud nad oeddent am fynd â'u plentyn i ddarpariaeth gofal plant ffurfiol oherwydd bod yn well ganddynt fod eu plentyn yn derbyn gofal oedd yn cael ei ddarparu gan aelod o'r teulu, neu fod aelodau'r teulu'n awyddus i ddarparu gofal. Fel yr esboniodd un rhiant, 'mae'r neiniau a'r teidiau wrth eu bodd yn gofalu am X ac rydw i wir yn meddwl na fydden nhw'n hapus pe bawn i'n dewis defnyddio'r 30 awr llawn yn lle eu bod nhw'n gofalu amdani hi' (Arfordir Clwyd 3).

Mae'n well i'r teulu ofalu am anghenion fy mhlentyn

- 4.55 Mewn achosion eraill, nid oedd rhieni yn gwneud cymaint o ddefnydd o elfen gofal plant y Cynnig ag yr oeddent yn gymwys i'w wneud oherwydd eu bod yn credu nad oedd gofal plant ffurfiol yn gweddu i bersonoliaeth eu plentyn nac yn diwallu eu hanghenion penodol. Dywedodd un rhiant ei bod yn well ganddi fod aelodau'r teulu'n gofalu am ei phlentyn oherwydd personoliaeth ei phlentyn. 'Rwy'n hoffi'r ffaith bod X yn agos at ei theulu a'n bod ni'n gofalu amdani hi ein hunain. Clywodd fy Mam am y Cynnig Gofal Plant yn y llyfrgell.... roedd Mam yn meddwl ei fod yn beth da iawn, ond oherwydd bod X yn blentyn sensitif ... ac roedd yna adegau pan na fyddai hi'n gollwng fy llaw i neu law Mam, roeddwn i'n teimlo bod dechrau'r ysgol yn ddigon iddi heb ei

hanfon i'r feithrinfa neu'r cylch chwarae hefyd' (Arfordir Clwyd 2). Roedd y rhiant hwn yn ofni y byddai ei phlentyn yn colli hyder pe bai yn mynychu grŵp chwarae hefyd ac i ffwrdd o gynefindra'r cartref, yn ychwanegol at fynychu'r CSM, ond roedd yn cydnabod bod y nain wedi dweud efallai y dylent ail-ystyried hyn ar ôl y Nadolig pan fyddai'r plentyn wedi setlo yn yr ysgol.

- 4.56 Dywedodd rhiant cymwys plentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ei bod yn haws i aelod o'r teulu ofalu am y plentyn yn hytrach na defnyddio gofal plant ffurfiol. Esboniodd y fam, 'mae X yn hoffi gwybod yn union beth sy'n digwydd felly mae'n haws i aelod o'r teulu ofalu amdano. Rydym yn gymwys i dderbyn y Cynnig, ond rydym wedi penderfynu defnyddio addysg gynnar yn unig, gan y byddai angen i X gerdded o'r ysgol gyda phlant eraill i'r feithrinfa gofal plant. Mae'n dipyn o daith a phe bai hi'n bwrw glaw neu pe bai unrhyw newid, fyddai o ddim yn gallu ymdopi â hynny' (Arfordir Conwy 4). Teimlai'r rhiant, 'dydy symud o un lleoliad i'r llall ddwywaith y dydd ddim yn dda i blentyn.' Gofal cofleidiol mewn un lleoliad fyddai'r ateb i'r teulu hwn yn ôl y rhiant, ond nid oedd darpariaeth addas.

Credoau ac arferion diwylliannol

- 4.57 Er bod sawl teulu wedi gwneud sylwadau am y credoau a'r arferion diwylliannol gwahanol iawn o amgylch addysg gynnar a gofal plant yn eu gwlad wreiddiol, roedd y rhan fwyaf o deuluoedd o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn manteisio ar rywfaint o ddarpariaeth y CSM neu ofal plant, hyd yn oed os nad oeddent yn gymwys i gael y Cynnig. Roedd teulu cymwys nad oedd yn manteisio ar y Cynnig, yn cyflogi *au pair* i helpu gyda gofal plant. Soniodd y fam am ei magwraeth yn Tsieina. 'Yn Tsieina mae gennym ddisgwyliadau uchel iawn o'n plant bach ymerodrol. Rwy'n credu nad yw fy meddylfryd i [fel mam Tsieineaidd] bob amser yn cael ei ddeall yma. Roedd gen i nani ['Aiyi'] pan oeddwn i'n tyfu i fyny. Roedd hi yno mewn gwirionedd i'm helpu i fod yn llwyddiannus ac i roi sefydlogrwydd i mi. Rwy'n credu fy mod i'n

ceisio gwneud hyn yn yr un ffordd yma ond mae'n rhaid i mi addasu i fywyd yma yng Nghymru.²¹

- 4.58 Darparwyd rhywfaint o wybodaeth am greddoau ac arferion diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr gan swyddog cymunedol Sipsiwn a Theithwyr mewn un ALI. Dywedodd y swyddog cymunedol mai'r norm oedd bod plant ifanc yn derbyn gofal gartref gan aelodau benywaidd y gymuned, 'mae teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn agos iawn ac yn dibynnu ar ei gilydd am ofal plant i raddau helaeth.' Adroddwyd mai cred gyffredin ymhlith aelodau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yw bod, 'plant tair a phedair oed yn rhy ifanc i adael eu teuluoedd'. Gan adlewyrchu'r gred hon am ofal plant ac addysg blyneddau cynnar, roedd plant Sipsiwn a Theithwyr tair a phedair oed y bu'r swyddog yn ymwneud â hwy yn tueddu i beidio â manteisio ar ofal plant wedi'i ariannu neu'r CSM er dywedodd y swyddog y bu ymgais ddiweddar mewn rhai awdurdodau lleol i annog plant i fynychu dosbarthiadau meithrin.

Materion iaith a'u heffaith ar ddewisiadau rhieni o ran gofal plant a'r CSM

- 4.59 Mynegodd rhieni ystod o greddoau am eu dyheadau ieithyddol a dylanwad iaith ar eu penderfyniadau ynghylch addysg gynnar a gofal plant. Roedd hyn yn cynnwys addysg cyfrwng Cymraeg, Saesneg, a dwyieithog.

Mae addysg a gofal plant Cymraeg ar gyfer fy mhientyn yn bwysig i mi

- 4.60 I rai rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg, roedd argaeledd addysg Gymraeg i'w plentyn yn bwysig am sawl rheswm megis gallu toddi i'r gymuned leol a chael gwaith. Dywedodd rhiant nad oedd yn siarad Cymraeg fod gallu siarad a defnyddio'r Gymraeg yn, 'bwysig iawn yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach, yn enwedig o ran cyfleoedd gwaith yn y dyfodol ac o ystyried targed Llywodraeth Cymru o filiwn o

²¹Ni ddarperir dynodwr yr Awdurdod Lleol i amddiffyn hunaniaeth

siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' (Abertawe 4). Credai rhiant arall y byddai gan ei phlant, 'well siawns o fewn marchnad economaidd y dyfodol, os gallent siarad Cymraeg' (Abertawe 7). Dywedodd rhiant nad oedd yn siarad Cymraeg yn Arfordir Conwy, 'sylweddolais fel oedolyn pa mor bwysig yw'r Gymraeg a sut rydych chi ei gwir angen os ydych chi eisiau gweithio yng Ngogledd Cymru. Dyna pam rydw i wedi mynnu bod ein plant yn mynd i'r Ysgol Gymraeg ... roeddwn i'n benderfynol y byddent yn mynd i'r ysgol gynradd Gymraeg' (Arfordir Conwy 4). Teimlai teulu dwyieithog Cymraeg a Saesneg ei iaith fod, 'addysg Gymraeg ar lefel blynyddoedd cynnar a lefelau cynradd ac uwchradd yn hanfodol a bod ysgolion Cymraeg yn perfformio'n llawer gwell nag ysgolion cyfrwng Saesneg, ac mae plant yn cael cymaint mwy allan o'r system' (Ceredigion 7).

Diffyg darpariaeth Gymraeg gerllaw

- 4.61 Trafododd rhieni argaeledd addysg gynnar a gofal plant yn eu dewis iaith yn eu hardal leol. Mae argaeledd darpariaeth addysg gynnar a gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Ymhlith y materion a godwyd gan y rhieni a gafodd eu cyfweld oedd methu â dod o hyd i ddarpariaeth ieithyddol addas, oriau agor cyfyngedig mewn lleoliadau a phryderon am gludiant i leoliadau cyfrwng Cymraeg lle nad oedd darpariaeth ar gael yn agos at y cartref.
- 4.62 Cyfeiriwyd at ddiffyg canfyddedig o ddarpariaeth gofal plant Cymraeg gan un rhiant a ddywedodd, 'rydw i wedi bod yn chwilio am ofal plant Cymraeg ond alla' i ddim dod o hyd iddo' (Ceredigion 1). Meddai rhiant nad oedd y siarad Cymraeg, 'byddwn yn bendant wedi ystyried anfon fy mhlant i addysg gynnar Gymraeg pe bai mwy o wasanaethau wedi bod yn agos at y cartref neu'r feithrinfa.... roedd diffyg dewis o ran lleoliadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer grwpiau cyn-ysgol a'u horiau agor cyfyngedig yn ffactor mawr a oedd yn dylanwadu ar y penderfyniad hwn' (CNPT3). Dywedodd rhiant Cymraeg ei hiaith a oedd hefyd yn warchodwr plant fod argaeledd darpariaeth Gymraeg yn bwysig iawn, a

chyfeiriodd at ddiffyg gofal plant Cymraeg yn lleol, 'mae'r holl blant yn fy ngofal i yn mynd i'r ysgol Gymraeg, ac mae gen i restr aros oherwydd bod prinder gofal plant Cymraeg yn yr ardal' (Arfordir Clwyd 1).

- 4.63 Dywedodd rhiant o gartref Saesneg ei iaith y byddent wedi ystyried anfon eu plant i addysg gynnar Gymraeg pe bai mwy o wasanaethau wedi bod yn agos at y cartref. 'Ond nid oedd yr un o'r lleoliadau Cymraeg wedi ymgymryd â chynlluniau Sicrwydd Ansawdd ac nid oedd eu hadroddiadau AGC / CIW cystal â'r rhai ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg' (CNPT3). Dywedodd rhiant arall ei bod yn teithio sawl milltir o'i chartref i sicrhau bod ei phlentyn yn mynychu darpariaeth Gymraeg. Esboniodd nad oedd unrhyw ddarpariaeth Gymraeg yn agos at ei chartref, felly defnyddiai gylch chwarae oedd oddeutu pedair milltir i ffwrdd o'i chartref, 'yn seiliedig ar y ffaith ei fod yn cynnig darpariaeth Gymraeg' (Abertawe 1). Teimlai fod angen mwy o ddarpariaeth Gymraeg yn ei hardal.

Mae'r Gymraeg yn fuddiol, ond mae'r Saesneg yn bwysicach

- 4.64 I deuluoedd eraill nid oedd addysg Gymraeg yn ystyriaeth bwysig. Teimlai rhiant nad oedd yn siarad Cymraeg, er iddi anfon ei phlentyn i'r Cylch Meithrin lleol a bod y plentyn, 'wedi elwa o gael gafael sylfaenol ar yr iaith' fod y Gymraeg yn, 'iaith sy'n marw' ac na fyddai'r plentyn, 'o reidrwydd yn elwa ohoni yn y dyfodol' (Abertawe 5). Roedd rhiant nad oedd yn siarad Cymraeg yn hapus gyda'r ddarpariaeth Saesneg ond doedd hi ddim yn erbyn i'w phlentyn gael dysgu Cymraeg yn yr ysgol. 'Dydy'r Gymraeg ddim yn bwysig i mi fel rhiant, ond rwy'n ddigon hapus y bydd fy mhlentyn yn ei dysgu yn yr ysgol' (Ceredigion 6). Meddai rhiant arall, 'ni fyddai unrhyw beth yn gwneud i mi ddewis lleoliad Cymraeg gan nad ydw i'n ystyried hyn yn flaenoriaeth (Abertawe 8). I deulu arall sy'n siarad Saesneg, hwylustod lleoliad ysgol gynradd Saesneg a'u dibyniaeth ar gymorth teulu ar gyfer gofal plant ar ôl ysgol oedd y ffactor pwysicaf wrth ddewis darpariaeth addysg gynnar (Abertawe 6). Dywedodd rhiant Cymraeg eu bod nhw, fel teulu, 'wedi

dewis byw ein bywydau trwy gyfrwng y Saesneg oherwydd nad yw X [y tad] yn siarad nac yn deall Cymraeg'. Dewisodd y teulu hwn i'w plentyn beidio â mynychu, 'yr ysgol a'r cylch chwarae agosaf sy'n gyfrwng Cymraeg a doedden ni ddim ei eisiau ar gyfer X' (Arfordir Conwy 1).

- 4.65 Dywedodd rhiant yng Nghastell-nedd Port Talbot y byddai gallu siarad Cymraeg yn fantais i'w plentyn, 'ond mae'r Saesneg yn bwysicach ... mae ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg bellach yn cynnig lefel sylfaenol o Gymraeg' (CNPT3). Esboniodd rhiant arall yr oedd ei blentyn yn mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg, 'mae fy ngŵr yn awyddus i'r plant ddysgu ieithoedd ychwanegol fel Ffrangeg neu Sbaeneg yn y dyfodol. Bydd y plant yn gallu dewis a ydyn nhw'n dymuno dysgu Cymraeg eu hunain, eu penderfyniad nhw fydd hynny' (CNPT4).

Ffactorau a fyddai'n annog rhieni i wneud defnydd o ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog

- 4.66 Cyfeiriodd rhieni at ffactorau a fyddai'n eu hannog i ddefnyddio addysg a gofal plant Cymraeg neu ddwyieithog os nad oeddent yn gallu gwneud hynny ar hyn o bryd. Roedd y rhain yn cynnwys darparu gofal cofleidiol yn yr ysgol gynradd Gymraeg agosaf, gwella cludiant i leoliadau cyfrwng Cymraeg, mwy o ymwybyddiaeth o leoliadau cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol ymhlith rhieni Saesneg eu hiaith, ysgolion cyfrwng Cymraeg yn nes atynt, mwy o ddewis, ac oriau agor hirach mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

Cynnal ein hiaith frodorol a dysgu Saesneg yw ein blaenoriaeth

- 4.67 Cymerodd saith rhiant a oedd yn siarad ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg ran yn yr astudiaeth hon. Roeddent i gyd yn gwerthfawrogi eu hieithoedd a'u dyheadau ieithyddol ar gyfer eu plentyn oedd cynnal eu hiaith frodorol a dysgu Saesneg, o leiaf tra roedd eu plentyn yn ifanc. Nid oedd dysgu Cymraeg yn flaenoriaeth benodol i'r teuluoedd hyn. Dywedodd teulu oedd yn siarad Saesneg a Thai cyn gynted ag y dechreuodd eu plentyn yn y feithrinfa, 'nododd staff y cylch chwarae fod

ei Saesneg yn wael ac argymhellwyd y byddai'n elwa o sesiynau ychwanegol i wella ei Saesneg'. Ond 'roedd y pris am hyn yn ddrud ac ar un cyflog ni allem ei fforddio. Mae X wedi ei chael hi'n anodd ymgymryd â dysgu Cymraeg gan ei bod eisoes yn cael trafferth gyda'r Saesneg.' Roedd y teulu'n ansicr ynghylch eu dyfodol ond roeddent yn ceisio 'cadw traddodiadau a ffyrdd o fyw Gwlad Thai a Lloegr yn fyw' i'r plentyn. Dywedon nhw y bydd y fam, 'bob amser yn siarad Thai â hi'. Roedd hon yn enghraifft o deulu oedd yn ceisio cadw traddodiadau Thai a Seisnig i'w plentyn. Roeddent yn gobeithio ail-ymgeisio am y Cynnig unwaith y byddai'r fam mewn gwaith.²²

- 4.68 Dywedodd teulu sy'n siarad Saesneg a Tsieineeg Mandarin, 'dydy addysg Gymraeg ddim yn addas i ni. Dydy [y tad] ddim yn siarad Cymraeg nac unrhyw un o'i deulu a dydw i ddim yn siŵr y bydd y merched yn dewis byw yng Nghymru yn y dyfodol, felly ni fydd angen iddyn nhw ddysgu Cymraeg. Dydyn ni ddim yn adnabod unrhyw un sy'n siarad Cymraeg mewn gwirionedd. Mae'r ardal hon mor agos at Loegr.²³

Materion yn ymwneud â manteisio ar ofal plant a ariennir a'r CSM ar gyfer grwpiau penodol.

- 4.69 Yn yr adran hon, rydym yn dwyn ynghyd y canfyddiadau sy'n berthnasol i grwpiau penodol yn y sampl.

Rhieni incwm isel

- 4.70 Dywedodd rhai o'r rhieni a oedd ar incwm isel fod eu hamgylchiadau yn eu cyfyngu rhag gallu gweithio mwy o oriau i hawlio'r Cynnig. Dywedodd rhiant oedd yn defnyddio darpariaeth Dechrau'n Deg ar hyn o bryd ac oedd yn gobeithio bod yn gymwys i ddefnyddio'r Cynnig 30 awr ei bod yn, 'anodd gweithio a magu plant fel rhiant sengl.' Doedd hi

²²Ni ddarparwyd dynodwr yr Awdurdod Lleol i amddiffyn hunaniaeth.

²³Ni ddarparwyd dynodwr yr Awdurdod Lleol i amddiffyn hunaniaeth.

ddim am roi'r gorau i weithio oherwydd, 'pan fydd fy mhlentyn yn mynd i'r ysgol, rwy'n gobeithio cynyddu fy oriau' (CNPT 6). Dywedodd rhiant arall oedd yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg ei bod yn teimlo bod blaenoriaethau'r llywodraeth o ran gofal plant yn anghywir. Teimlai, 'dylai'r llywodraeth fod yn annog mamau neu dadau i aros gartref i fagu plant yn hytrach na'u hannog i weithio a rhoi eu plant i rywun arall i'w magu' ac ychwanegodd, 'beth am roi rhywfaint o arian i famau neu dadau aros gartref yn lle hynny a threulio amser gyda'u plant? ' (Ceredigion 3).

- 4.71 Problem arall a oedd yn effeithio ar rai teuluoedd incwm is oedd os na allai rhiant yrru ac nad oedd unrhyw gludiant cyhoeddus ar gael, roedd yr anhawster o deithio i'w dewis o CSM a / neu ddarpariaeth gofal plant, yn golygu bod eu plentyn yn colli ei hawl i'r CSM neu ofal plant.

Teuluoedd sydd â phlentyn gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

- 4.72 Soniodd y rhieni a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon am amrywiaeth o gyflyrau meddygol ac anghenion addysgol arbennig gan blant yn amrywio o ecsema difrifol ac alergeddau bwyd i oedi yn eu lleferydd, awtistiaeth ac ADHD. Ym mhob achos, roedd anghenion ychwanegol y plentyn yn gwneud defnyddio darpariaeth y CSM a gofal plant addas yn fwy heriol. Serch hynny, nid oedd anghenion ychwanegol y plant wedi atal rhieni rhag gwneud rhywfaint o ddefnydd o'r CSM a darpariaeth gofal plant ond, mewn rhai achosion, cyfrannodd hyn at benderfyniadau i beidio â manteisio ar y Cynnig yn llawn.
- 4.73 Dywedodd rhiant yr oedd gan ei blentyn tair oed sawl math o alergedd bwyd eu bod yn falch iawn gyda lefel y gefnogaeth i anghenion y plentyn a ddarperid gan y Feithrinfa. 'Mae ganddi Gynllun Gofal ac mae'n gweld y Pediatregydd a'r Maethegydd yn achlysurol. Rydw i'n canolbwyntio ar fwyd ac iechyd oherwydd yr alergeddau a hefyd yn cysgu!' (Caerdydd 2). Nid oedd y teulu'n defnyddio'r hawl i'r CSM eto oherwydd, 'ffactor mawr hefyd fyddai polisi'r ysgolion ar alergeddau.

Byddai'n rhaid iddynt fod yn gynhwysol o ran maeth ac anghenion fy merch' (Caerdydd 2).

- 4.74 Dywedodd rhiant a oedd yn disgwyl adborth ar ôl asesiad ei phlentyn am awtistiaeth, 'pan oedd yn y cylch chwarae soniodd un o'r staff am rai pryderon. I ni, dim ond X ydy o, ond yna dechreuais sylwi ar rai pethau bach a daethant yn fwy amlwg wrth iddo setlo. Pethau fel angen am drefn a gwybod beth sy'n dod nesaf ychydig yn fwy na phlant eraill.' Roedd y teulu'n gymwys am y Cynnig ond roeddent wedi penderfynu defnyddio'r CSM, y mae'r plentyn yn ei fynychu bob bore yn unig, 'roeddem o'r farn ei bod yn haws i bawb oherwydd bod X yn hoffi ei drefn arferol. Mae fy nhad yn mynd ag ef adref, ac mae ganddyn nhw drefn o fwydo pysgod dad yn yr ardd a chwarae y tu allan lle bo hynny'n bosib nes bod fy ngŵr yn dod i'w nôl' (Arfordir Conwy 4). Roedd gallu'r teulu hwn i ddefnyddio'r Cynnig yn llawn wedi'i gyfyngu oherwydd nad oedd lleoliad eu CSM yn darparu gofal plant wedi'i ariannu ychwaith.
- 4.75 Nid oedd rhiant sengl a oedd yn gweithio 16.5 awr yr wythnos dros dri diwrnod yn hawlio'r Cynnig ('Alla' i mo'i gael oherwydd ei fod yn effeithio ar fy mudd-dal tai') a dywedodd fod ei phlentyn yn derbyn therapi lleferydd ac iaith (SALT) oherwydd mai ychydig iawn yr oedd yn siarad o ystyried ei hoedran. Roedd y plentyn yn mynychu cylch chwarae ac addysg gynnar. Meddai'r rhiant, 'mae X yn sgwrsio llawer mwy yn y cylch chwarae ... gobeithio y bydd ei siarad hi'n dal i ddatblygu' (Arfordir Conwy 5).
- 4.76 Dywedodd rhiant cymwys arall nad oedd yn hawlio'r Cynnig fod ei phlentyn wedi cael diagnosis o salwch prin iawn. Roedd y plentyn yn mynychu cylch chwarae bob bore a thri phrynhawn yr wythnos; roedd y rhiant yn falch fod ei phlentyn, 'yn cael cyfle i chwarae gyda phlant eraill o'r un oed. Dywedodd y fam a oedd yn gweithio'n llawn amser ei bod yn dibynnu, 'ar fy chwaer, fy mrawd yng nghyfraith, mam a gwarchodwr plant i fynd â'r plant [i'w lleoliadau] a'u casglu' (Abertawe 9).

- 4.77 Mae'r profiadau a amlinellir uchod yn tynnu sylw at yr angen i bob darparwr CSM a gofal plant allu diwallu anghenion arbennig ac amrywiol plant ADY er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i rieni a'u plant elwa'n llawn o ddarpariaeth y Cynnig. Mae angen ymchwil pellach i ddeall yn well y rhwystrau penodol sy'n wynebu teuluoedd plant ADY o ran manteisio ar y Cynnig yn llawn.

Teuluoedd o gymunedau Lleiafrifoedd Ethnig

- 4.78 Cymerodd saith rhiant o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ran yn yr astudiaeth hon. Roedd rhai o'r ystyriaethau a oedd ganddynt mewn perthynas â manteisio ar ddarpariaeth gofal plant ac addysg gynnar yn cynnwys profi gwahanol brofiadau addysgol o'u cymharu â'u rhai eu hunain yn eu gwlad wreiddiol, ceisio efelychu rhywfaint o'u magwraeth eu hunain a chynnal arferion diwylliannol ac ieithyddol wrth reoli'r gwahanol normau cymdeithasol a'r ymddygiadau a ddisgwylir mewn darpariaeth gofal plant a'r CSM yng Nghymru.
- 4.79 Dywedodd rhiant a gafodd ei magu yn Tsieina, 'dyw'r dewis o weithgareddau yn lleol ddim mor wych ag yn XXX. Pan oeddwn i'n blentyn, ar y penwythnosau byddem yn treulio amser fel teulu - fi, fy rhieni a'r ddwy set o neiniau a theidiau. Rwy'n colli'r ffaith nad yw [fy mhlant i] yn gallu cael hynny'. Roedd y teulu wedi dewis cyflogi *au pair* i'w plentyn yn hytrach na manteisio ar y Cynnig.²⁴
- 4.80 Dywedodd rhiant o Wlad Thai ei bod wedi bod yn sioc o ran diwylliant iddi pan symudon nhw i Gymru. Dywedodd fod y plentyn tair oed wedi ei chael hi'n anodd oherwydd, 'mae disgyblaeth yn llawer mwy llac yng Ngwlad Thai, ac mae hi'n cael ei hystyried yn 'ddrwg' yma. Mae ein problem ni yn wahanol yn yr ystyr bod X yn ddiffygiol iawn o ran gwedd gymdeithasol bywyd y DU, a'r broblem iaith.' Esboniodd y rhiant arall a gafodd ei fagu yng Nghymru, 'Bydd Mam bob amser yn siarad Thai â hi ac mae arni eisiau iddi ddysgu darllen ac ysgrifennu Thai, ac mae hi'n

²⁴Ni ddarparwyd dynodwr yr Awdurdod Lleol i amddiffyn hunaniaeth.

dysgu darllen ac ysgrifennu yn Saesneg nawr. Dydy treulio amser gyda mam ddim yn helpu'r sefyllfa iaith ac am amser hir, er ei bod yn fy neall yn siarad Saesneg, byddai'n gwrthod ateb yn Saesneg. Mae pethau ychydig yn haws nawr ei bod yn yr ysgol yn y bore ac yn gallu treulio amser gyda mi hefyd yn y prynhawn.' ²⁵

- 4.81 Dywedodd rhiant a fagwyd yng Ngwlad Pwyl a oedd wedi dod i Brydain i astudio yn y brifysgol ei bod wedi cael magwraeth gyda disgyblaeth lem o'i gymharu â'r sefyllfa yn y DU. 'Cefais fy magu mewn dinas fach, lle roedd llawer i'w wneud, a llawer o hobïau a gweithgareddau ar ôl ysgol. Rwy'n gwybod y bydd fy mhlant yn cael eu magu mewn gwlad wahanol, ac mewn tref lai, ond hoffwn iddynt gael dewis da o weithgareddau ar ôl ysgol. Fe ddysgais Saesneg yn fy arddegau, ond mae fy mhlant i yn ffodus i gael dwy iaith o oedran ifanc.' Roedd y fam-gu o ochr y fam hefyd yn byw gyda'r teulu ac yn darparu gofal i'r plentyn iau pan nad oedd o'n mynychu darpariaeth y CSM yn yr ysgol. Nid oedd y fam-gu yn siarad llawer o Saesneg a phan nad oedd y tad gartref, 'rydyn ni i gyd yn siarad Pwyleg. Dydy X ddim yn hyderus yn y Saesneg a bydd bob amser yn ateb mewn Pwyleg. Dydw i ddim yn gwybod sut mae hi'n dod ymlaen yn yr ysgol.' ²⁶

Teuluoedd mewn ardaloedd gwledig

- 4.82 Dywedodd teuluoedd mewn ardaloedd gwledig fod problemau'n deillio o ddiffyg argaeledd darpariaeth gofal plant. Oherwydd y tybid bod diffyg darpariaeth gofal plant yn eu hardal, nododd rhieni nad oeddent wedi gallu dod o hyd i ddarpariaeth addas ar gyfer eu hanghenion, a dywedodd rhai rhieni nad oeddent yn gallu dychwelyd i'r gwaith oherwydd diffyg darpariaeth. Dywedodd un rhiant ei bod ar gyfnod mamolaeth estynedig oherwydd nad oedd hi'n gallu dod o hyd i warchodwr plant cofrestredig oedd yn siarad Cymraeg ar gyfer ei phlentyn (Ceredigion 1). Dywedodd rhiant arall y byddai'n dychwelyd i'r

²⁵Ni ddarparwyd dynodwr yr Awdurdod Lleol i amddiffyn hunaniaeth.

²⁶Ni ddarparwyd dynodwr yr Awdurdod Lleol i amddiffyn hunaniaeth.

gwaith ac yn hawlio'r Cynnig pe bai hi'n gallu dod o hyd i feithrinfa yn agos. Dywedodd ei bod wedi bod yn chwilio am feithrinfa gofal dydd ers iddi gyrraedd Cymru, 'ond nad oedd unrhyw beth yn yr ardal yn cynnig hyn' (Ceredigion 4). Mewn ardaloedd mwy gwledig yn ardal Arfordir Clwyd, soniwyd hefyd am y diffyg dewis o ddarpariaeth. Roedd rhiant yn ardal Arfordir Clwyd wedi dechrau ei busnes gwarchod plant ei hun yn hytrach na pharhau â'i gwaith fel athrawes, 'fel y byddai fy mhlant yn gallu cael mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg o ansawdd da felly rwy'n ystyried fy mod yn ffodus fy mod wedi gallu gwneud hyn' (Arfordir Clwyd 1).

Teuluoedd un rhiant

- 4.83 Ymhlith y materion a godwyd gan unig rieni a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon roedd ofn colli budd-daliadau eraill pe byddent yn gwneud cais am y Cynnig a diffyg gwybodaeth am y Cynnig. Soniwyd hefyd am ddiffyg hyder ac amser i wneud cais am y Cynnig fel rhwystr.
- 4.84 Esboniodd unig rieni rai o'r anawsterau roeddent yn eu hwynebu mewn perthynas ag addysg gynnar a gofal plant. Ychydig iawn o wybodaeth oedd gan un unig riant, a oedd yn gweithio'n llawn amser ond nad oedd yn byw gyda'i blentyn, am y Cynnig. Meddai, 'fel tad nad ydy o bellach yn byw yng nghartref y teulu, dydw i ddim yn teimlo ein bod yn cael ein trin yn deg gan y system. Rydw i eisiau'r gorau i'm plentyn.... dydw i ddim yn gwybod am [y Cynnig] ond rydw i wedi gweld rhywbeth ar y teledu - hysbyseb efallai? Dydw i ddim yn credu y gallwn ei gael. Bydd yn effeithio ar fudd-daliadau mae'n debyg' (Blaenau Gwent 1).
- 4.85 Roedd unig riant arall a oedd mewn cyflogaeth amser llawn yn dibynnu'n bennaf ar ei rhieni am gefnogaeth gyda gofal plant i ddau blentyn bach. Roedd y plentyn iau yn mynychu rhai sesiynau mewn cylch chwarae yr oedd y neiniau a'r teidiau yn talu amdanynt. Roedd y rhiant yn ymwybodol o'r Cynnig ond meddai, 'dydw i ddim yn teimlo'n hyderus wrth lenwi'r holl waith papur angenrheidiol. Rwy'n credu fy mod yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant, ond rwy'n poeni am lenwi'r

ffurflenni. ' Iddi hi, roedd hyn yn rhwystr ac yn ei hatal rhag defnyddio'r Cynnig. Ond nid oedd yn rhaid iddi hawlio oherwydd ei bod yn teimlo, 'mae gen i'r holl gefnogaeth sydd ei hangen arnaf, gyda chymorth fy rhieni' (Abertawe 5).

Rhieni sy'n fyfyrwyr

- 4.86 Nid yw rhieni a oedd yn fyfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig yn gymwys i wneud cais am y Cynnig.²⁷ Roedd problemau i rieni oedd yn fyfyrwyr yn cynnwys ymdeimlad o rwystredigaeth ynghylch methu â defnyddio'r Cynnig, yn enwedig wrth ddilyn hyfforddiant ôl-raddedig galwedigaethol, ac anawsterau wrth geisio bodloni'r gofyniad i ddilyn cwrs gradd prifysgol, cyflogaeth ran-amser a sicrhau darpariaeth gofal plant addas i weddu i'r rhiant a'r plentyn.
- 4.87 Cymerodd pedwar rhiant a oedd yn fyfyrwyr ran yn yr ymchwil. Roedd un rhiant, a oedd yn unig riant, hefyd mewn cyflogaeth am 16 awr yr wythnos. Roedd hi'n byw yng Nghymru ond yn mynychu prifysgol yn Lloegr. Esboniodd oherwydd, 'y ffordd y mae ein bywyd - mae'n fwy addas i mi iddo fynd i'r feithrinfa ger fy mhrifysgol. Dydw i ddim yn siŵr sut y gallwn ei gael i'r feithrinfa ger ein tŷ (yn Arfordir Clwyd). Byddai'r oriau yn hirach o lawer ac mae wedi setlo lle mae o. Roeddwn i'n meddwl y byddwn i'n cael llawer o gymorth ariannol gan fy mod i'n fyfyrwr, rydw i'n cael rhywfaint o help gyda'r tŷ a'r biliau, ond dim llawer o help gyda gofal plant. Mi ges i anawsterau mawr am yr ychydig fisoedd cyntaf oherwydd aeth yr holl arian a enillais i dalu am ofal plant. Mae myfyrwyr yn cael cymhorthdal tuag at y feithrinfa ond mae'n dal yn ddrud. ' (Arfordir Clwyd 6). Roedd rhiant a ddechreuodd gwrs TAR ym mis Medi 2019, wedi clywed am y Cynnig, gan fod ei ffrind wedi ei gael ar gyfer ei bachgen hi, 'ac roeddwn i'n meddwl y byddem ni'n gymwys amdano. Doeddwn i wir ddim yn meddwl oherwydd fy mod i'n fyfyrwr na fyddem ni'n ei gael. Roedd yn siom enfawr. Oherwydd bod fy ngŵr

²⁷Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, gallai rhieni sy'n fyfyrwyr israddedig gael cymorth ariannol os oes ganddynt blant dibynnol trwy Gyllid Myfyrwyr Cymru.

yn ennill £27,000 nad ydy o'n llawer i'r teulu, dydyn ni ddim yn cael unrhyw gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr na chredyd gofal plant. Felly, rydyn ni mewn tipyn o dwll eleni. Rwy'n ffodus y gall fy mam helpu, ond dwi'n meddwl pan fydda' i ar leoliad y bydd yn ormod iddi wneud hyn bob dydd' (Conwy 6). Dywedodd rhiant arall a oedd yn fyfyrwr ac yr oedd ei phartner yn gweithio patrwm sifft 40 awr nad oedden nhw yn gallu defnyddio gofal plant oherwydd, 'mae gofal plant mor ddud a dydw i ddim yn credu fy mod yn gymwys i allu defnyddio'r Cynnig Gofal Plant gan fy mod yn astudio.' (Casnewydd 1). Credai rhiant a oedd yn fyfyrwrraig nyrsio y dylai myfyrwyr dderbyn mwy o gymorth gofal plant, 'Rwy'n credu y gallai'r llywodraeth roi llawer mwy o gefnogaeth i fyfyrwyr. Oherwydd bod fy mhartner yn gweithio a minnau ddim, dydyn ni ddim yn cwrdd â gofynion y Cynnig Gofal Plant am ddim. Mae'r cwmni benthyciadau myfyrwyr yn cynnig talu rhai costau gofal plant ond oherwydd incwm fy mhartner dydyn ni ddim yn gymwys. Yn syml, allwn ni ddim fforddio ei hanfon i *creche* neu i'r Meithrin ac mae hynny'n drist oherwydd dwi'n meddwl y byddai wrth ei bodd' (Caerfyrddin 4).

Teuluoedd mewn ardaloedd ar ffiniau awdurdodau lleol

- 4.88 Roedd problemau i deuluoedd a oedd yn byw mewn ardaloedd ar ffiniau awdurdodau lleol yn cynnwys anawsterau ac ansicrwydd ynghylch sut a ble i gael gafael ar ofal plant pan oeddent yn gweithio ac yn byw mewn dwy ardal awdurdod lleol wahanol.
- 4.89 Roedd rhiant oedd yn fyfyrwr a oedd hefyd yn gweithio 16 awr yr wythnos ond ddim yn hawlio'r Cynnig yn byw yng Nghymru ond yn astudio ac yn manteisio ar ofal plant yn Lloegr. 'Fe roddodd y feithrinfa daflen i mi am y gofal plant am ddim ond pan ofynnais amdano doedden nhw ddim yn siŵr y gallwn ei gael oherwydd fy mod i'n byw yng Nghymru ac mae'r feithrinfa yn Lloegr' (Arfordir Clwyd 6). Dywedodd rhiant arall ei bod yn cael trafferth cael gafael ar addysg gynnar i ddechrau oherwydd bod pob rhiant yn gweithio mewn awdurdod lleol gwahanol i'w gilydd, 'roedd yna ddewis cyfyngedig o

leoliadau a allai gynnig casglu / gollwng y plant a fyddai'n gweddu ar gyfer ein patrymau gwaith hyblyg' (CNPT 1) .

5. Casgliadau

- 5.1 Yn y bennod hon, rydym yn crynhoi ein canfyddiadau a'n casgliadau allweddol.

Ymwybyddiaeth rhieni o hawl a dealltwriaeth o sut i wneud cais am y Cynnig (gofal plant wedi'i ariannu a'r CSM)

- Roedd mwyafrif y rhieni a gymerodd ran yn yr ymchwil yn ymwybodol o'r Cynnig. Dywedodd llawer eu bod wedi derbyn gwybodaeth trwy ddarparwyr gofal plant, awdurdodau lleol a gwefannau Llywodraeth Cymru, gorsafoedd radio lleol a llyfrgelloedd lleol.
- Dywedodd rhai rhieni, er eu bod yn ymwybodol o'r Cynnig, nad oeddent yn gwybod am broses cael mynediad at y gofal hwnnw.
- Roedd y rhan fwyaf o rieni yn gwybod bod gan bob plentyn tair a phedair oed yng Nghymru hawl i o leiaf 10 awr o addysg gynnar bob wythnos ac roeddent yn ymwybodol o ddarpariaeth y CSM oedd ar gael yn eu hardal. Roedd mwyafrif y rhieni hefyd yn gwybod sut i wneud cais am ddarpariaeth y CSM.

Gwybod am asiantaethau a gwasanaethau cymorth i deuluoedd a chysylltu â nhw

- Dywedodd mwyafrif y rhieni eu bod yn gallu cael y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt am asiantaethau a gwasanaethau cymorth i deuluoedd.
- Ymhlith y ffynonellau gwybodaeth a grybwyllid yn aml roedd: gweithwyr iechyd proffesiynol, darparwyr gofal plant, llyfrgell leol, gwybodaeth gan ffrindiau, papur newydd lleol, a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cyfeiriodd rhieni at ystod o wasanaethau ac asiantaethau cymorth yr oeddent yn eu defnyddio'n lleol, ond i rai rhieni, roedd cost yn ffactor a oedd yn eu hatal rhag defnyddio'r gwasanaethau hyn.
- Roedd y ffactorau oedd yn dylanwadu ar ddefnydd rhieni o asiantaethau a gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn cynnwys gwybodaeth a rennid gan leoliadau gofal plant fel cylchoedd chwarae, gwybodaeth a rennid gan weithwyr iechyd proffesiynol ac argymhellion gan ffrindiau.

Rhwystrau ymarferol i fanteisio ar y Cynnig (gofal plant wedi'i ariannu a'r CSM)

- Dywedodd ychydig o rieni eu bod wedi cael anhawster cael gafael ar wybodaeth am y Cynnig. Gallai cyswllt cyfyngedig â darparwyr gofal plant arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth rhieni am y Cynnig.
- Nid oedd gan leiafrif o rieni ymwybyddiaeth am hawl i'r CSM ac roeddent yn ansicr ble i gael mynediad at addysg gynnar yn eu hardal. Roedd y diffyg ymwybyddiaeth yn fwy amlwg ymhlith rhieni a gafodd eu cyfweld yn Abertawe.
- Mewn rhai ardaloedd ymchwil, nododd rhieni fod diffyg darpariaeth gofal plant yn eu hardal yn cyfyngu ar eu dewisiadau o ran cyflogaeth.
- Nid oedd rhai teuluoedd yn defnyddio hawl eu plentyn i'r CSM oherwydd nad oedd y CSM ar gael yn eu dewis iaith yn lleol neu ystyrid ei fod yn rhy bell i fod yn ymarferol.
- Roedd diffyg gofal cofleidiol mewn lleoliadau yn rhwystr i fanteisio ar y Cynnig. Nid oedd rhai teuluoedd yn hawlio elfen CSM y Cynnig oherwydd anawsterau o ran mynd â phlentyn o leoliad gofal plant i ddarpariaeth CSM. Dywedodd rhieni eraill nad oeddent yn gallu manteisio ar y Cynnig yn llawn oherwydd bod cost symud eu plentyn rhwng y CSM yn yr ysgol a lleoliad gofal plant yn rhwystr.
- Roedd anhyblygrwydd y ddarpariaeth gofal plant a'r CSM hefyd yn broblem ganfyddedig i rai, yn enwedig y rhieni hynny a oedd yn gweithio sifftiau ac oriau afreolaidd.

Rhwystrau gweinyddol i fanteisio ar y Cynnig (gofal plant wedi'i ariannu a'r CSM)

- Dywedodd sawl rhiant nad oeddent yn gallu hawlio'r Cynnig oherwydd anawsterau gyda'u statws cyflogaeth, er enghraifft, yn gweithio oriau anghyson neu nad oedd ganddynt slipiau cyflog oherwydd hunangyflogaeth.
- Dywedwyd bod llenwi'r ffurflen gais i hawlio'r Cynnig yn rhwystr gan rai rhieni. Roedd anawsterau a nodwyd yn cynnwys diffyg hyder gan rieni i llenwi'r ffurflen gais a chanfyddiad bod y broses ymgeisio yn gymhleth.
- Roedd teuluoedd eraill o'r farn fod y wybodaeth oedd yn ofynnol i llenwi'r ffurflen gais yn ymyrryd gormod i breifatrwydd y teulu ac roeddent yn anfodlon darparu faint o wybodaeth oedd yn ofynnol i gofrestru ar gyfer y Cynnig.

- Mynegodd sawl rhiant rwystredigaeth na allent wneud cais am y Cynnig. Mewn rhai achosion, roedd hyn oherwydd eu bod yn derbyn budd-daliadau eraill.
- Dywedodd rhai teuluoedd fod costau gofal plant (e.e. mewn amgylchiadau lle nad oedd cylchoedd chwarae neu warchodwyr plant oedd ar gael wedi ymrwymo i'r Cynnig) yn cyfyngu mynediad eu plentyn i ddarpariaeth gofal plant.
- Rhwystr sylweddol i dderbyn y Cynnig oedd diffyg gofal plant wedi'i ariannu ar gyfer plant o dan dair oed a oedd yn creu problemau o ran fforddiadwyedd i rieni oedd â nifer o blant tair i bedair oed ac iau. Roedd yn well gan rieni incwm isel, yn arbennig, weithio llai ac aros gartref i ofalu am y plant, 'na defnyddio fy nghyflog i gyd i dalu am ofal plant.'

Credoau ac ymddygiadau a oedd yn annog rhieni i ymgysylltu â gwasanaethau gofal plant wedi'u hariannu a'r CSM

- Mynegodd rhieni wahanol gredoau mewn perthynas â phwysigrwydd gwaith a defnyddio rhywfaint o'u cymhwysedd am y CSM a gofal plant i ailymuno â'r farchnad lafur. I rai, roedd cymhellion ariannol o'r pwys mwyaf. I eraill, nid oedd y fantais ariannol o weithio yn flaenoriaeth.
- Soniodd rhai mamau am eu hangen i weithio a'r buddion iechydd meddwl a gawsant o weithio.
- Rhoddwyd credu ym mhwsigrwydd cymdeithasoli plentyn yn gynnar y tu allan i'r teulu a chyda grŵp cyfoedion y plentyn fel rhesymau dros fanteisio ar y Cynnig neu elfennau o'r Cynnig gan rai rhieni.
- Teimlai llawer o rieni fod addysg gynnar yn fuddiol i blant am resymau cymdeithasol ac addysgol. Mynegodd rhai rhieni eu barn am bwysigrwydd datblygu sgiliau dysgu cynnar a bod yn 'barod i'r ysgol' trwy ddefnyddio'r Cynnig.
- Teimlai rhai rhieni fod mynychu gofal plant ffurfiol ac addysg gynnar yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad iaith eu plant.
- Dywedodd llawer o rieni eu bod wedi mynychu addysg gynnar eu hunain ac, i raddau llai, gofal plant ffurfiol. Nid oedd eraill wedi mynychu addysg gynnar na gofal plant o gwbl cyn dechrau'r ysgol. Beth bynnag oedd profiadau plentynod y rhieni, roedd yn amlwg eu bod wedi ffurfio barn y rhieni ond bod ffactorau eraill yn aml yn bwysig yn eu penderfyniadau fel oedolion ynghylch addysg a gofal plant eu plentyn eu hunain.

Credoau ac ymddygiadau sy'n cyfyngu ar ymgysylltu â gofal plant a ariennir a'r CSM

- Roedd credoau am ofal plant ac addysg gynnar yn cyfyngu ar ymgysylltu yn amrywio yn ôl barn rhieni ynghylch pa brofiadau oedd bwysicaf i blant, eu barn ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am fagu plant ifanc, a'u gwerthoedd diwylliannol.
- Un o'r rhesymau amlaf dros beidio â defnyddio'r Cynnig oedd cred fod cadw gofal plant yn y teulu yn bwysig. Dywedodd rhai rhieni nad oeddent am fynd â'u plentyn i ddarpariaeth gofal plant ffurfiol oherwydd ei bod yn well ganddynt i'w plentyn dderbyn gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan aelod o'r teulu, neu fod aelodau'r teulu'n awyddus i ddarparu gofal.
- Credai rhai rhieni fod plant yn rhy ifanc i ddechrau mynd i'r ysgol yn dair oed hyd yn oed os oedd y CSM yn cynnwys dysgu trwy chwarae ac roeddent hefyd yn ffafrio gohirio'r oedran i ddechrau addysg amser llawn.
- Roedd gan rai rhieni a fanteisiodd ar y CSM yn rhan-amser ar gyfer eu plentyn greddau cryf na ddylai plant, gael eu rhoi mewn darpariaeth gofal plant pellach, ac mai aelodau'r teulu oedd yn darparu unrhyw ofal plant ychwanegol orau.
- Soniwyd hefyd am werthoedd ac arferion diwylliannol o ran addysg gynnar a gofal plant fel rhesymau dros beidio â manteisio ar y Cynnig - y CSM a gofal plant wedi'i ariannu. Roedd y rhain yn werthoedd yn seiliedig ar greddau y dylai gofal plant ac addysg gynnar / cymdeithasoli fod yn gyfrifoldeb i rieni, a'r teulu ehangach.

Materion iaith a'u heffaith ar ddewisiadau rheini ynghylch gofal plant a'r CSM

- Trafododd rhieni eu gwybodaeth am argaeledd addysg gynnar a gofal plant yn eu dewis iaith yn eu hardal leol. Mae argaeledd darpariaeth addysg gynnar a gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ledled Cymru. Tybid bod diffyg darpariaeth gofal plant Cymraeg digonol mewn rhai ardaloedd.
- I rai rhieni, roedd argaeledd addysg gynnar Gymraeg i'w plentyn yn bwysig am sawl rheswm megis gallu toddi i'r gymuned leol a dod o hyd i waith. Nid oedd addysg gynnar a gofal plant Cymraeg yn ystyriaeth bwysig i deuluoedd eraill, er bod y mwyafrif yn fodlon i'w plant ddysgu rhywfaint o Gymraeg.
- Cyfeiriodd rhieni at ffactorau a fyddai'n eu hannog i ddefnyddio addysg a gofal plentyndod cynnar cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog os oeddent yn

methu gwneud hynny ar hyn o bryd. Roedd y rhain yn cynnwys darparu gofal cofleidiol yn yr ysgol gynradd Gymraeg agosaf, gwella cludiant i leoliadau cyfrwng Cymraeg, mwy o ymwybyddiaeth o leoliadau cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Cymraeg yn nes atynt, mwy o ddewis ac oriau agor hirach mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

- Cymerodd saith rhiant a oedd yn siarad ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg ran yn yr astudiaeth hon. Roeddent i gyd yn gwerthfawrogi eu hieithoedd eu hunain a'u dyheadau o ran iaith ar gyfer eu plentyn oedd cadw eu hiaith eu hunain a dysgu Saesneg, o leiaf tra roedd eu plentyn yn ifanc. Nid oedd dysgu Cymraeg yn flaenoriaeth iddynt yn y cyfnod hwn ym mywyd eu plentyn.

Materion yn ymwneud â manteisio ar ofal plant a ariennir a'r CSM ar gyfer grwpiau penodol

- Dywedodd rhai rhieni a oedd ar incwm isel, fod eu hamgylchiadau yn eu cyfyngu rhag gallu gweithio mwy o oriau i hawlio'r Cynnig.
- Nododd rhieni a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon amrywiaeth o gyflyrau meddygol ac anghenion dysgu ychwanegol gan blant yn amrywio o ecsema difrifol ac alergeddau bwyd i oedi yn eu lleferydd, awtistiaeth ac ADHD. Ym mhob achos, roedd anghenion ychwanegol y plentyn yn gwneud manteisio ar ddarpariaeth y CSM a gofal plant addas yn fwy heriol. Serch hynny, nid oedd anghenion ychwanegol y plant wedi atal rhieni rhag gwneud rhywfaint o ddefnydd o'r CSM a darpariaeth gofal plant ond, mewn rhai achosion, oherwydd diffyg gofal cofleidiol priodol, cyfrannodd hyn at iddynt beidio â manteisio'n llawn ar y Cynnig.
- Soniodd rhieni o gymunedau lleiafrifoedd ethnig pa mor wahanol yw profiadau addysgol yn awr o'u cymharu â'u profiadau eu hunain, ac roeddent yn awyddus i efelychu rhywfaint o'u magwraeth eu hunain.
- Dywedodd teuluoedd mewn ardaloedd gwledig fod problemau yn deillio o'r ffaith nad oedd darpariaeth gofal plant ar gael. Oherwydd y canfyddiad bod diffyg darpariaeth gofal plant yn eu hardaloedd, nododd rhieni nad oeddent wedi gallu dod o hyd i ddarpariaeth addas ar gyfer eu hanghenion a dywedodd rhai rhieni nad oeddent yn gallu dychwelyd i'r gwaith oherwydd diffyg darpariaeth.

- Ymhlith y materion a godwyd gan unig rieni roedd ofn colli budd-daliadau eraill pe byddent yn gwneud cais am y Cynnig, a diffyg gwybodaeth am y Cynnig. Dywedwyd hefyd bod diffyg hyder ac amser i wneud cais am y Cynnig yn rhwystr.
- Roedd problemau i deuluoedd sy'n byw ac yn gweithio mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol yn cynnwys anawsterau ac ansicrwydd ynghylch sut a ble i gael gafael ar ofal plant.

6. Argymhellion

- 6.1 Mae'r argymhellion canlynol yn seiliedig ar ganfyddiadau sydd wedi deillio o'r ymchwil i gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio penderfyniadau rhieni o ran gofal plant ac addysg gynnar.

Argymhelliad 1

- 6.2 Dangosodd yr ymchwil fod dryswch ymhlith rhai o'r rhieni a gafodd eu cyfweld ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng gofal plant ac addysg gynnar. Byddai canllawiau cliriach i'r gwahaniaethau rhwng gofal plant ac addysg gynnar yn yr wybodaeth a ddarperir i rieni gan Awdurdodau Lleol ac yn ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol.

Argymhelliad 2

- 6.3 Er bod llawer o rieni yn ymwybodol o'r Cynnig, roedd yn amlwg o'r ymchwil nad oedd y dulliau rhannu gwybodaeth presennol yn cyrraedd holl rieni plant tair a phedair oed yng Nghymru. Gallai cyswllt cyfyngedig â darparwyr gofal plant arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth rhieni am y Cynnig. Pe bai rhiant allan o'r system trwy ofalu am ei blentyn ei hun neu yn dibynnu ar ofal plant anffurfiol fel neiniau a theidiau, byddai llai o ymwybyddiaeth am y Cynnig yn debygol. Gallai rhoi ystyriaeth bellach i ddulliau cyfathrebu ynglŷn â'r Cynnig gan Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru gynorthwyo i gynyddu'r nifer sy'n manteisio arno.

Argymhelliad 3

- 6.4 Dylai Awdurdodau Lleol ystyried yr amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a allai fod yn ofynnol i sicrhau bod grwpiau anodd eu cyrraedd yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ydynt am fanteisio ar y Cynnig. Gallai hyn gynnwys cyfieithu gwybodaeth i amrywiaeth o ieithoedd a chysylltu â swyddogion cymorth sy'n gweithio gyda chymunedau i ddarparu gwybodaeth.

Argymhelliad 4

- 6.5 Mae'r ymchwil yn dangos bod llawer o rieni yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cymdeithasoli plentyn yn gynnar y tu allan i'r teulu a chyda grŵp cyfoedion y plentyn. Nododd llawer o rieni eu cred fod addysg gynnar yn fuddiol i blant am resymau cymdeithasol ac addysgol, pwysigrwydd datblygu sgiliau dysgu cynnar a bod yn 'barod i'r ysgol' trwy ddefnyddio'r Cynnig. Dylai'r agweddau hyn ar ddarpariaeth y CSM gael eu hamlygu mewn deunyddiau cyfathrebu a ddarperir gan Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 5

- 6.6 Dywedwyd bod llenwi'r ffurflen gais yn rhwystr i rai rhieni ac yn eu hatal rhag ymgeisio. Roedd canfyddiad hefyd bod y broses ymgeisio yn gymhleth. Dylai gweinyddwyr sicrhau bod ffurflenni cais mor hawdd eu defnyddio â phosibl a sicrhau bod mwy o gefnogaeth ar gael i helpu'r teuluoedd hynny sydd angen cymorth i gwblhau'r broses ymgeisio.

Argymhelliad 6

- 6.7 Nododd yr ymchwil fod rhieni mewn rhai amgylchiadau wedi dod ar draws rhwystrau gweinyddol a oedd yn eu hatal rhag manteisio'n llawn ar eu hawl i ofal plant a'r CSM. Dywedodd sawl rhiant nad oeddent wedi gallu hawlio'r Cynnig oherwydd anawsterau gyda'u statws cyflogaeth, er enghraifft, yn gweithio oriau anghyson neu nad oedd ganddynt slipiau cyflog oherwydd hunangyflogaeth. Roedd rhieni oedd yn gweithio mewn cyflogaeth ansicr fel contractau dim oriau neu oriau gwaith anghyson yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â'r Cynnig. Roedd peidio â chael slipiau cyflog neu fethu â gallu profi oriau gwaith yn broblem i rai rhieni hunangyflogedig. Dylai'r Cynnig gael ei gyflwyno i ddarparu ar gyfer ystod eang o amgylchiadau cyflogaeth a hyfforddiant. Wrth gadarnhau cymhwysedd ar gyfer y Cynnig, dylai'r Awdurdodau Lleol ystyried amgylchiadau cyflogaeth gwahanol ac a ellir cynllunio'r

Cynnig i'w ddefnyddio'n hyblyg gan y rhai sydd mewn sefyllfaoedd lle mae eu cyflogaeth yn ansicr.

Argymhelliad 7

- 6.8 Rhwystyr sylweddol i fanteisio ar y Cynnig oedd diffyg gofal plant wedi'i ariannu ar gyfer plant o dan dair oed a oedd yn creu problemau fforddiadwyedd i rieni gyda nifer o blant rhwng tair a phedair oed ac iau. Er mwyn cynyddu'r nifer sy'n derbyn addysg a gofal plentyndod cynnar wedi'i dargedu at oedran arbennig, dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gymorth y gellid ei ddarparu i deuluoedd â mwy nag un plentyn sy'n agos mewn oedran o dan yr amgylchiadau hyn.

Argymhelliad 8

- 6.9 Ymddengys fod galw sydd heb ei ddiwallu am ofal plant mewn rhai ardaloedd daearyddol ac am addysg a gofal plentyndod cynnar cyfrwng Cymraeg. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yn dymuno ystyried digonolrwydd gofal plant ymhellach yn genedlaethol ac yn lleol, a'r hyn y gallent ei wneud o bosibl i gefnogi cynaliadwyedd a thwf yn y sector.

Argymhelliad 9

- 6.10 Mae profiadau y soniwyd amdanynt yn yr ymchwil yn tynnu sylw at yr angen i'r CSM a darparwyr gofal plant allu diwallu anghenion arbennig ac amrywiol plant ADY er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i rieni a'u plant ADY elwa ar ddarpariaeth y Cynnig. Byddai'r rhwystrau posibl sy'n cyfyngu ar allu teuluoedd â phlant ADY i fanteisio'n llawn ar y Cynnig yn haeddu astudiaeth bellach mewn ymchwil wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriadau

Copland, F., & Creese, A., (2015) *Linguistic Ethnography*. London: Sage Publications.

Crocker, S., Thomas, H., Spyropoulos, N. Pandya, S., Saied-Tessier, A., Gusanu, S., Olympiou, C., (2018) [Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru](#). Llywodraeth Cymru/Alma Economics. Rhif adroddiad GSR 2/2018.

De Marco, A., (2008) A qualitative look at childcare selection among rural welfare-to-work participants. *Journal of Children & Poverty* [serial online];14(2):119-138.

Evans, D, Taylor, C., Rhys, M. (2016) [Gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol 2016](#) (WISERD), Prifysgol Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 80/2016.

Evans, M. D. R., & Kelley, J., (2002) Attitudes towards childcare in Australia. *Australian Economic Review*, 35, 188–196. doi: [10.1111/1467-8462.00235](#).

Emmerson, R.M, Fretz, R.I, & Shaw L.L. (2011) *Writing Ethnographic Fieldnotes* 2nd Edition. Chicago: The University of Chicago Press.

Given, L.M., (gol.) (2008) [The Sage Encyclopaedia of Qualitative Research Methods, Volumes 1 & 2](#). London: Sage Publications.

Glyn, E., Harries, S., Lane, J., Lewis, S., (2019) [Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn dau](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 57/2019.

Grimm, P., (2010) Social Desirability Bias. [Wiley International Encyclopedia of Marketing, Part 2](#). Marketing Research. Wiley Online Library.

McLean, C., Naumann, I., Koslowski, A., (2017) Access to Childcare in Europe: Parents' Logistical Challenges in Cross-national Perspective. *Social Policy & Administration* [serial online]; 51(7):1367-1385.

Morris, D. & Jones, K., (2008) Language Socialization in the Home and Minority Language Revitalization in Europe, in P. Duff & N. H Hornberger (eds) *Encyclopedia of Language and Education*, Argraffiad 1af, Cyfrol 8: *Language Socialization*, 1-17, ISBN: 978-0-387-32875-1.

The Joseph Rowntree Foundation, (2016) [Working parents hit living standards ceiling due to high childcare costs](#).

Glover, A., Harries, S., Lane, J., Lewis, S., (2018) [Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 61/2018.

Glyn, E., Harries, S., Lane, J., Lewis, S., (2019) [Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn dau](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 57/2019.

Paull, G., Xu, X., (2015) *Childcare Policy Options for Wales*. Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, Caerdydd.

PACEY (2013) [What does School-Ready really mean?](#)

PACEY (2016) [Back to Work Blues](#)

Taylor, L., C., Clayton, J.D., & Rowley, S.J. (2004) Academic socialization: Understanding parental influences on children's school-related development in the early years. *Review of General Psychology*, *Review of General Psychology*, Cyfrol. 8, Rhif 3, 163–178.

Llywodraeth Cymru, (2017a) [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg](#). Hawlfraint y Goron, Caerdydd.

Llywodraeth Cymru, (2017b) [Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd](#). Hawlfraint y Goron, Caerdydd.

Llywodraeth Cymru, (2018a) [Darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair oed: Canllawiau i awdurdodau lleol yng Nghymru](#). Dogfen ganllaw rhif: 233/2018.

Llywodraeth Cymru, (2018b) *Specification for Ethnographic Study of Parent Attitudes towards Early Years Education and Care* (C226/2018/2019) (Fersiwn 1.0 May 2018).

Wheelock, J. & Jones, K., (2002) Grandparents Are the Next Best Thing: Informal Childcare for Working Parents in Urban Britain. *Journal of Social Policy* Volume 31, Issue 3. 441-463.

Atodiad A: Hysbysiad Preifatrwydd



Deall Agweddau ac Ymddygiad Rhieni o ran Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith i wneud gwaith ymchwil i'r rhesymau pam nad yw rhieni plant 3-4 oed yn dewis manteisio ar ofal plant ffurfiol ac addysg feithrin cyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar.

Nod yr ymchwil yw deall y rhesymau pam y mae rhieni yn dewis peidio â manteisio ar y gwasanaethau hyn a beth sy'n cymhell rhieni i wneud dewisiadau ynghylch addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar.

Fel rhan o'r ymchwil hon, bydd IAITH yn casglu gwybodaeth drwy ddull ethnograffig. Bydd hyn yn golygu y byddant yn ymuno â chi yn ystod eich gweithgareddau dyddiol arferol i geisio deall eich barn a'ch teimladau ynghylch gofal ac addysg yn y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn digwydd drwy sgysiau dydd-i-ddydd gyda chi, neu efallai y bydd eich ymchwilydd cymunedol yn gofyn a fydddech chi'n hoffi cymryd rhan mewn cyfweiliad anffurfiol.

Llywodraeth Cymru yw rheolydd data'r gwaith ymchwil. Fodd bynnag, bydd IAITH yn dileu unrhyw ddata personol a fydd yn cael eu darparu drwy'r sgysiau a'r cyfweiliadau anffurfiol, ac yn tynnu enwau o'r data crai, cyn eu rhannu â Llywodraeth Cymru.

Bydd yr wybodaeth a fydd yn cael ei chasglu yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ac mewn cyhoeddiadau eraill o bosibl gan IAITH a Llywodraeth Cymru.

Eich dewis chi yn llwyr yw p'un a ydych am gymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn ai peidio. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau'n bwysig er mwyn helpu i lywio polisiau Llywodraeth Cymru.

Yr unigolyn cyswllt ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yw Kathryn Jones yn IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith.

Cyfeiriad e-bost: kathryn.jones@iaith.eu

Rhif ffôn: 01745 222 053 (llinell uniongyrchol)

HYSBYSIAD PREIFATRUYDD

Pa ddata personol rydym yn eu cadw, ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Caiff data personol ei ddiffinio dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ffactor adnabod. Caiff data categori arbennig fel grŵp ethnig neu gred grefyddol eu diogelu ymhellach o dan y gyfraith diogelu data.

Rydych wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymchwil hwn ar ôl clywed am y prosiect drwy rywun arall, gweld neges ar-lein am y prosiect neu drwy siarad yn uniongyrchol ag un o ymchwilwyr cymunedol IAITH. Os ydych yn fodlon cymryd rhan yn yr ymchwil ac yn ffonio neu'n anfon e-bost at IAITH, gofynnir ichi ddarparu manylion cyswllt (eich enw, rhif ffôn, cyfeiriad cartref a chyfeiriad e-bost os oes un gennych).

Fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, byddwn yn casglu'r wybodaeth personol ganlynol:

- Ethnigrwydd
- Cred Grefyddol
- A oes gennych chi neu eich plentyn unrhyw gyflyrau iechyd hirdymor
- A oes gan eich plentyn anghenion addysgol arbennig (AAA)

Dim ond at ddibenion yr ymchwil hwn y bydd IAITH yn defnyddio'ch cyfeiriad e-bost, cyfeiriad cartref a'ch rhif ffôn.

Pan fydd yr ymchwilydd yn gwneud cofnod o'r hyn mae'n yn ei weld neu yn ystod sgysiau a chyfweiliadau anffurfiol, bydd enwau'n cael eu tynnu o unrhyw ddata personol, a bydd ffugenwau'n cael eu defnyddio yn hytrach nag enwau go iawn.

Os bydd gennych ymholiad neu gŵyn, ac yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, dim ond at y swyddog perthnasol y bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais hwnnw cyn ei ddileu o'r data ymchwil.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Ein tasg gyhoeddus, hynny yw arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru, yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r wybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn. Mae rhai o'r data y byddwn yn eu casglu yn cael eu galw'n 'ddata categori arbennig' (sef ethnigrwydd, cred grefyddol, a manylion unrhyw gyflyrau iechyd hirdymor neu anghenion addysgol arbennig (AAA) eich plentyn

yn yr achos hwn) a'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw ei bod at ddibenion ystadegol neu ymchwil.

Dewis yr unigolyn yn llwyr yw p'un a yw am gymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn ai peidio. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir gweithredu arni ynghylch ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth. Gellid defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn y prosiect hwn, er enghraifft, ar gyfer:

- cefnogi gwelliannau i wasanaethau;
- dyrannu cyllid i'r awdurdodau lleol ac eraill;
- cefnogi gwaith ymchwil ehangach i'r gwasanaethau a ddarperir i chi a'ch plentyn, neu eraill.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae'r wybodaeth bersonol a roddir i IAITH yn cael ei storio ar weinydd diogel bob amser. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sy'n gallu cael mynediad at y data. Cedwir unrhyw nodiadau ac arsylwadau ymchwil a gofnodwyd ar bapur dan glo yn swyddfeydd IAITH. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd IAITH yn defnyddio'r data hyn. Mae gan IAITH nod ardystio Cyber Essentials.

Mae gan IAITH weithdrefnau ar waith i fynd i'r afael ag achosion lle amheuir rhywun o dorri rheolau diogelu data. Os amheuir bod rheolau diogelu data wedi cael eu torri, bydd IAITH yn rhoi gwybod am hyn i Lywodraeth Cymru a fydd, yn ei thro, yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle mae'n ofynnol inni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Bydd yr holl ddata a gesglir drwy'r gwaith ymchwil hwn yn cael eu cadw mewn fformat dienw. Ni fyddant yn cynnwys eich manylion cyswllt, a bydd unrhyw wybodaeth a allai arwain at adnabod person yn cael ei dileu. Bydd IAITH yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolyn sydd wedi cymryd rhan.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Bydd IAITH yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad ydynt eisoes wedi cael eu tynnu yn ystod cyfnodau casglu a dadansoddi'r data yn cael eu dileu gan IAITH o fewn tri mis i ddiwedd y contract. Mae hynny'n cynnwys eich manylion cyswllt.

Bydd IAITH yn rhoi fersiwn anhysbys o'r data i Lywodraeth Cymru, sef data na fydd yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir eich adnabod ohoni.

Hawliau'r Unigolyn

O dan y GDPR mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r prosiect hwn. Mae gennych yr hawl:

- i weld copi o'ch data eich hun;
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar unrhyw waith prosesu (o dan amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), cysylltwch â:

Enw: Katrina Morrison

Cyfeiriad e-bost: katrina.morrison@llyw.cymru

Rhif ffôn: 0300 025 8528

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost:

DataProtectionOfficer@llyw.cymru.

Atodiad B: Offerynnau Casglu Data



1 Manylion Gweinyddol Administrative Matters

Ardal Area:	Cod y teulu Family Code:	Yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg? Living in Flying Start area? Y / N	Teulu wedi cael hysbysiad preifatrwydd? Was family given privacy notice? Do / naddo Yes / no
Statws Status: drafft / terfynol: draft / final		Gwiriwyd gan Checked by:	Gwiriad terfynol Final Check:
Data personol yn anhysbys: Ydy Yes Personal data anonymised: Nac ydy No		Gwiriwyd gan Checked by:	Gwiriad terfynol Final Check:
Gwaith maes 1 – beth a lle? Fieldwork 1 – what and where?		Gwaith maes 2 – be a lle? Fieldwork 2 – what and where?	Gwaith maes 3 – be a lle? Fieldwork 3 – what and where?

2 Gorolwg Overview

[illegible]

3 Proffil teuluol Family profile

Agwedd Aspect	Manylion Details <i>Dim enwau/rhifau cyswllt/cyfeiriadau/cyfeiriadau e-bost i'w cynnwys / No names/ contact numbers/addresses/email addresses to be included</i>
Lleoliad a math o gartref Location and type of home – ardal, new'r pentref/tref (dim cyfeiriad), hyd yr amser yn y cartref cyfredol	
Aelwyd Household – un neu ddau riant, oedolion eraill	
Siblingiaid Siblings - nifer ac oedran y plant, safle ymysg siblingiaid y plentyn 3-4 oed	

laith (ieithoedd) y rhiant /oedolion Language(s) of parent(s) / adults Cymraeg, di-Gymraeg, Saesneg, BSL, ieithoedd eraill	
laith/ieithoedd y plentyn <i>Language(s) of child</i> a phlant eraill yn y cartref	
Defnydd iaith ar yr aelwyd ymysg aelodau'r teulu Language use in the home amongst family members	
Amgylchiadau arbennig – plentyn Special circumstances – child (eglurwch heb roi disgrifiadau manwl o gyflyrau meddygol)	

Amgylchiadau arbennig - rhiant/rhieni Special circumstances – parent(s) (eglurwch heb roi disgrifiadau manwl o gyflyrau meddygol)	
Ethnigrwydd Ethnicity (nodwch os cafodd rhiant /rhieni eu geni yn lleol / wedi byw yn lleol erioed neu wedi symud o ran arall o Gymru neu o wlad arall, a yw rhiant /rhieni yn ystyried eu hunain yn Gymry neu ddim yn Gymry. Ask: What is your ethnic group? And show the list of ethnic groups to choose from (see Section 6)/ Gofynnwch: Beth yw eich grŵp ethnig? A dangoswch y rhestr o grwpiau ethnig iddynt	

ddewis categori ohoni (gw. Adran 6)	
Credoau Crefyddol Religious beliefs (nodwch unrhyw wybodaeth berthnasol ee hunan- ddiffinio fel aelod o grŵp crefyddol / mynychu addoldai)	
Galwedigaeth rhiant / rhieni Parent(s) occupation – cyflogaeth gyfredol a blaenorol / diweithdra Ble maen nhw'n gweithio? Pa mor bell maen nhw'n teithio i'r gwaith? Oriau gwaith / gwaith sifft?	

Addysg rhiant/rhieni Parent(s) education – lle, lefel, cyfrwng addysg	
Teulu estynedig – y fam Extended family – maternal Pwy, yn byw ymhle, amllder a math o gysylltiad	
Teulu estynedig – y tad Extended family – paternal Pwy, yn byw ymhle, amllder a math o gysylltiad	
Defnydd iaith gyda'r teulu estynedig Language use with extended family Pwy? Pryd? Pa iaith /ieithoedd?	

Rhwydweithiau cymdeithasol/cymunedol pwysig eraill yn lleol Other significant social / community networks locally – friends, neighbours, shared community	
Mudoledd / Mobility Man geni, man plentyndod / magwraeth	
Diddordebau a gweithgareddau cymunedol Interests and community activities	

4 Gwerthoedd ac arferion Values and practices

Agwedd Aspect	Manylion Details
	<i>Dim enwau na data personol i'w cynnwys / No names or personal data to be included</i>
Sut fydddech chi'n disgrifio'ch bywyd teuluol ar hyn o bryd?	
Beth yw trefn diwrnod arferol i [[plentyn 3-4 oed]?	
Beth yw trefn wythnos arferol i [plentyn 3-4 oed]?	
Oes gennych chi drefn ddyddiol arferol? Rhieni / teulu	
Sut ydych chi'n teimlo am edrych ar ôl eich plentyn a	

gweithio / chwilio am waith / unrhyw gyfrifoldebau eraill?	
A oes unrhyw un arall yn gofalu am X i chi o gwbl? Pwy, pryd, ble? Sut ydych chi'n teimlo am y trefniadau hyn?	
Ydych chi'n llwyddo i gael y gefnogaeth rydych chi ei eisiau / ei hangen i helpu i fagu'ch plentyn?	
Beth sy'n bwysig i chi am y ffordd rydych chi'n magu'ch plentyn?	
Fyddech chi'n dweud eich bod chi'n ceisio magu'ch plentyn yn yr un ffordd â phan oeddech chi'n blentyn? Pam / pam ddim? Beth sydd yr un fath? Beth sy'n wahanol?	

Beth yw eich gobeithion a'ch breuddwydion ar gyfer eich plentyn?	
Ydych chi erioed wedi meddwl am ddefnyddio gofal plant?	
Beth ydych chi'n ei feddwl am addysg? Cyn-ysgol / Ysgolion Cynradd Unrhyw gynlluniau? Ble? Pa oedran?	

5 Cwestiynau ymchwil – rhestr wirio Research questions check list

Cwestiynau ymchwil LIC Welsh Government research questions	Cwestiynau ‘Aide memoire’ ‘Aide memoire’ questions	Tystiolaeth, gwybodaeth a dyfyniadau Evidence, information and quotes <i>Dim enwau na data personol i’w cynnwys</i> <i>No names or personal data to be included</i>
Beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu wrth benderfynu pam mae rhai rhieni / gofalmwr yn dewis peidio â mynd â'u plentyn i Feithrinfa'r Cyfnod Sylfaen?	• Ydych chi'n gwybod bod pob plentyn 3 oed yng Nghymru yn gallu cael 10 (12.5) awr o addysg gynnar bob wythnos? • Ydych chi'n gwybod lle y gallwch chi gael mynediad i addysg gynnar • Ydych chi wedi meddwl am fynd â'ch plentyn i gael addysg gynnar yn (yr ysgol leol) neu mewn (meithrinfa / ysgol feithrin)? • Beth wnaeth i chi benderfynu peidio â mynd â'ch plentyn i addysg gynnar mewn ysgol neu feithrinfa / ysgol feithrin? • Beth ydych chi'n ei wybod am yr addysg gynnar mewn ysgolion?	

	• Beth ydych chi'n ei feddwl am yr addysg gynnar mewn ysgolion? • Ydych chi'n meddwl y dylai plant 3-4 oed fynd/na ddylai plant fynd i addysg gynnar? Pam?	
Beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfynu pam mae rhai rhieni / gofalwyr sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn dewis peidio â manteisio arno?	• Ydych chi'n gwybod sut i gael gwybodaeth am y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru? Ydych chi'n gwybod a ydych chi'n gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant? • Ydych chi'n gwybod lle gallwch chi gael mynediad at ofal plant yn eich ardal chi? • Beth ydych chi'n ei wybod am y Cynnig Gofal Plant y tu allan i'r system ysgolion mewn meithrinfa / ysgol feithrin? • Beth ydych chi'n ei feddwl am y Cynnig Gofal Plant y tu allan i'r system ysgolion mewn meithrinfa / ysgol feithrin? • A oes unrhyw resymau pam nad ydych chi am ddefnyddio'r Cynnig Gofal Plant?	
Beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfynu pam mae rhai rhieni / gofalwyr nad ydyn nhw'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn	• A fydddech chi'n defnyddio gofal plant pe bydddech chi'n gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant?	

dewis peidio â manteisio ar ofal plant ffurfiol?		
Ydy rhieni / gofalwyr yn deall sut i wneud cais am y CSM?	• Ydych chi'n gwybod sut i wneud cais am le mewn addysg gynnar yn eich ysgol leol neu mewn gofal dydd llawn?	
Ydy rhieni / gofalwyr yn gwybod sut i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant?	• Ydych chi'n gwybod sut i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant?	
Sut mae rhieni / gofalwyr yn penderfynu pa wasanaethau a / neu hawl(iau) i	• Pa wasanaethau ac asiantaethau cymorth sydd ar gael i helpu rhieni â phlant ifanc yn lleol? ○ Ydych chi'n defnyddio unrhyw un ohonyn nhw? Os felly, pa rai?	

fanteisio arnyn nhw? Sut wnaethon nhw ddarganfod am y gwasanaethau hyn? A beth sy'n dylanwadu ar y penderfyniadau hyn?	○ Sut wnaethoch chi ddarganfod am y gwasanaethau hyn? ○ Sut wnaethoch chi benderfynu pa rai i'w defnyddio?	
Pa ddylanwadau cymdeithasol-ddemograffig a diwylliannol sy'n cael dylanwad ar rieni / gofalwyr yn dewis peidio â manteisio ar addysg gynnar a gofal plant?	ATEBION O DDADANSODDIAD AR DRAWS SAMPL O DEULUOEDD	
Ar wahân i oblygiadau ymarferol, pa ganfyddiadau / rhagfarnau sydd	• Beth ydych chi'n ei feddwl am addysg gynnar? • Beth ydych chi'n ei feddwl am ofal plant? • A oes unrhyw beth wedi eich troi yn erbyn y syniad o addysg gynnar i'ch plentyn?	

gan rieni / gofalwyr am addysg gynnar a gofal plant, ac a yw'r disgwyliadau hyn yn creu amharodrwydd a / neu rwystrau i ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn?	• A oes unrhyw beth wedi eich troi yn erbyn y syniad o ofal plant i'ch plentyn? • Aethoch chi erioed i addysg gynnar pan oeddech chi'n 3-4 oed? • Aethoch chi erioed i ofal plant pan oeddech chi'n 3-4 oed? • A oes unrhyw rai o'ch ffrindiau'n mynd â'u plant i addysg gynnar / yn defnyddio gofal plant? • Ydych chi'n meddwl y byddai'r gofal plant yn yr ardal hon (tref / pentref / Awdurdod Lleol) yn addas i'ch plentyn? • Sut mae gofal plant yma yn cymharu â gofal plant yn (lle arall / gwlad arall)? • Sut mae addysg gynnar i blant 3-4 oed yma yn cymharu â (lle arall / gwlad arall)?	
Beth sy'n rhwystro (ac yn helpu, neu a allai helpu) rhieni / gofalwyr i fanteisio ar addysg gynnar a gwasanaethau gofal plant?	• A oes unrhyw beth sy'n eich atal rhag defnyddio addysg gynnar neu ofal plant? • A oes unrhyw beth a fyddai'n eich helpu i ddefnyddio addysg gynnar neu ofal plant?	

A oes rhai problemau yn ymwneud ag addysg gynnar a gofal plant yn fwy amlwg i rai grwpiau? (Statws economaidd-gymdeithasol / ethnigrwydd) - A yw rhai problemau yn fwy amlwg i rai grwpiau?	ATEB O DDADANSODDIAD AR DRAWS SAMPL O DEULUOEDD	
Beth, os unrhyw beth, fyddai'n gwneud i rieni / gofalwyr ailystyried mynd â'u plentyn i leoliad addysg gynnar neu ofal plant? A beth fyddai'n eu darbwylllo i barhau i	• A oes unrhyw beth a fyddai'n gwneud ichi feddwl eto am fynd â'ch plentyn i addysg gynnar neu ofal plant? • A oes unrhyw beth a fyddai'n eich argyhoeddi i barhau i wneud hynny'n rheolaidd?	

wneud hynny'n rheolaidd?		
Os yw rhieni wedi defnyddio addysg gynnar neu ofal plant, i ba raddau y mae'r ddarpariaeth wedi bod yn well na'r disgwyl?	• Os ydych wedi defnyddio addysg gynnar neu ofal plant yn y gorffennol, a oedd unrhyw reswm pam y gwnaethoch stopio? • Sut oeddech chi wedi disgwyl i addysg gynnar fod? Wnaeth eich plentyn chi fwynhau mynd? Wnaeth o weithio'n dda i chi? Wnaeth o droi allan fel yr oeddech yn disgwyl? Os ddim, pam? • Sut oeddech chi wedi disgwyl i ofal plant fod? Wnaeth eich plentyn fwynhau mynd? Wnaeth o weithio'n dda i chi? Wnaeth o weithio fel yr oeddech yn disgwyl? Os naddo, pam?	
I ba raddau y mae ffactorau sy'n gysylltiedig ag iaith yn dylanwadu ar ddewisiadau rhieni / gofalwyr ynghylch addysg a gofal cynnar?	• Pa ieithoedd ydych chi am i'ch plentyn siarad yn yr oedran hwn? Yn y dyfodol? • A yw iaith yr addysg gynnar a'r gofal plant sydd ar gael yn lleol yn effeithio ar eich dewisiadau ynghylch addysg gynnar a gofal plant mewn unrhyw ffordd? Sut?	

Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar ddymuniadau rhieni / gofalwyr i fanteisio ar ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog? Ac i ba raddau mae'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar benderfyniadau?	• Beth ydych chi'n ei feddwl am addysg gynnar a gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg? • Ydych chi'n gwybod a oes addysg gynnar Gymraeg neu ddwyieithog ar gael yn lleol? • Ydych chi'n gwybod a oes gofal plant Cymraeg neu ddwyieithog ar gael yn lleol? • Hoffech chi i'ch plentyn fod mewn addysg gynnar a gofal plant Cymraeg yn awr? • Os nad oes addysg gynnar a gofal plant Cymraeg neu ddwyieithog ar gael yn lleol, ydy hyn yn effeithio ar eich penderfyniadau ynghylch gofal plant ac addysg gynnar?	
Beth yw'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn hwyluso mynediad at ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, ac i ba raddau y mae'r rhain yn dylanwadu ar benderfyniadau?	• A oes unrhyw resymau pam nad ydych yn defnyddio addysg gynnar neu ofal plant Cymraeg neu ddwyieithog? • A oes unrhyw bethau a fyddai'n eich helpu i ddefnyddio addysg gynnar a gofal plant Cymraeg neu ddwyieithog? • Ydy'r ffactorau hyn yn effeithio ar eich penderfyniadau am addysg gynnar a gofal plant?	
Pa ganfyddiadau sydd gan rieni / gofalwyr am addysg gynnar a gofal plant	• Beth yw eich barn am addysg gynnar a gofal plant Cymraeg neu ddwyieithog? Pam hynny?	

Cymraeg a dwyieithog?		
Wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar, i ba raddau y mae rhieni / gofalwyr yn cael eu harwain gan ddyhead tymor hir o ran galluoedd Cymraeg eu plentyn?	• Ydych chi'n meddwl bod gallu siarad a defnyddio'r Gymraeg yn bwysig i'ch plentyn yn y dyfodol? • Ydy hyn yn effeithio ar eich dewisiadau ynghylch addysg gynnar a gofal plant?	
Beth, os o gwbl, y mae rhieni / gofalwyr yn ei ystyried sy'n effeithiau tymor canolig i dymor hir gofal plant ac addysg gynnar ar	• Ydych chi'n meddwl bod mynd i ofal plant neu addysg gynnar wedi cael effaith neu y byddai'n cael effaith ar eich plentyn mewn unrhyw ffordd (yn y tymor canolig i'r tymor hir)? Effaith gadarnhaol neu negyddol? Sut? • Ydych chi'n meddwl bod defnyddio gofal plant neu addysg gynnar yn cael effaith neu y byddai yn cael effaith ar eich teulu	

eu plentyn, a'u teulu yn ehangach?	mewn unrhyw ffordd? Effaith gadarnhaol neu negyddol? Sut?	
---------------------------------------	--	--

Unrhyw sylwadau eraill / any other comments

6 Ethnigrwydd

[Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd](#)

Ymchwilydd i holi:

Beth yw eich grŵp ethnig?

Dewiswch un o'r opsiynau sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau

Gwyn

1. Cymreig/Welsh/Seisnig /Albanaidd/Gogledd Wyddelig/Prydeinig
2. Gwyddelig
3. Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
4. Unrhyw gefndir Gwyn arall, disgrifiwch

Grwpiau ethnig Cymysg / Lluosog

5. Gwyn a Du Caribiaidd
6. Gwyn a Du Affricanaidd
7. Gwyn ac Asiaidd
8. Unrhyw gefndir ethnig Cymysg/Lluosog arall, disgrifiwch

Asiaidd/Asiaidd Prydeinig

- 9. Indiaidd
- 10. Pacistanaidd
- 11. Bangladeshaidd
- 12. Tsieinëeg
- 13. Unrhyw gefndir Asiaidd arall, disgrifiwch

Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig

- 14. Affricanaidd
- 15. Caribïaidd
- 16. Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall, disgrifiwch

Grŵp ethnig arall

- 17. Arabaidd
- 18. Unrhyw grŵp ethnig arall, disgrifiwch

